# Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg 2022-2031

## Cynllunio ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam

Yr Adran Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

V.4

## Rhagair

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ymrwymo i gefnogi, ehangu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac mae hyn yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Bod rhieni, plant a phobl ifanc yn cael dealltwriaeth a gwybodaeth lawn am fanteision dwyieithrwydd mewn ffordd hygyrch a chyfoes;
- Galluogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith ar gyfer byw a magu hyder wrth i ddwyieithrwydd ddod yn rhan arferol o'u bywydau bob dydd.
- Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig presennol a sicrhau y gwneir cynlluniau ar gyfer y dyfodol er mwyn cynyddu capasiti.
- Gwella darpariaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn codi safonau yn y Gymraeg yn sylweddol a hyrwyddo dwyieithrwydd.
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu rhaglen o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n cefnogi ymarferwyr i gyflawni amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSCA) yn ogystal â chynyddu nifer yr ymarferwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Mae'r gofyniad i gyhoeddi CSCA wedi'i nodi yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013; mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynigion a thargedau'r awdurdod lleol:

i. i wella cynllunio ar y gyfer darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal;

ii. i wella safonau addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu Cymraeg yn ei ardal.

Strategaeth Llywodraeth Cymru yw bod â miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg). O dan y rheoliadau newydd mae'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi CSCA 10 mlynedd o fis Medi 2022 a hwn i bob pwrpas fydd conglfaen cyfraniad y Cyngor tuag at strategaeth Llywodraeth Cymru.

Rydym yn falch iawn o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud mewn perthynas â'r deilliannau y gwnaethom eu pennu ar ddechrau ein CSCA cyfredol ond rydym yn cydnabod bod cryn dipyn i'w gyflawni eto. Rydym yn croesawu'r cyfle y mae'r CSCA hwn yn ei roi i ni wrth i ni gychwyn ar gam nesaf ein siwrnai.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| 1. Y Weledigaeth | 4 |
| 2. Trefniadau Ymgynghori | 7 |
| 3. Poblogaeth a Nodweddion Ieithyddol | 8 |
| 4. Y Ddarpariaeth Gymraeg Bresennol | 10 |
| 5. Y Gweithlu (Athrawon a Chymorthyddion Addysgu) | 15 |
| 6. Darpariaeth Iaith Gymraeg ar gyfer Hwyrddyfodiaid | 17 |
| 7. Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 18 |
| 8. Cludiant i'r Ysgol | 19 |
| 9. Categorïau Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg | 20 |
| 10. Targed CSCA | 21 |
| 11. Deilliannau CSCA | 24 |
| Geirfa | 63 |

# 1. Y Weledigaeth

Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cyrraedd miliwn ac mae'r iaith yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rhai hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg mae ewyllys da tuag at yr iaith ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni a chydnabyddiaeth gyffredin o'i chyfraniad at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth yw creu amodau ffafriol ym mhob rhan o'r wlad sy'n cefnogi caffaeliad yr iaith a'r defnydd ohoni. Rydym am weld cynnydd yn nhrosglwyddiad yr iaith o fewn y teulu, cyflwyniad cynnar y Gymraeg i bob plentyn, system addysg sy'n darparu sgiliau Cymraeg i bawb.

Cymraeg 2025 – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2017)

Wedi cydnabod yr awch am addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam rydym yn hynod o falch o'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yma, ac ymrwymo i'w ddatblygiad pellach yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Mae Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn ateb y galw am lefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn wir gwelwyd twf sylweddol mewn llefydd cyn ac yn ystod oes y CSCA blaenorol. Yn 2013 agorwyd Ysgol Bro Alun, ysgol cyfrwng Cymraeg 210 lle newydd; cymaint oedd llwyddiant yr ysgol mewn denu disgyblion rydym eisoes wedi ehangu'r ddarpariaeth yno i wneud lle i 315 o blant. Yn ogystal, rydym wedi ehangu'r ddarpariaeth mewn nifer o ysgolion cyfwng Cymraeg lle'r oedd y safleoedd yn caniatau hynny. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf rydym wedi creu 560 neu 42.78% o lefydd ychwanegol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

| Ysgol | Mynediad 2012 | Capasiti 2012 | Mynediad 2021 | Capasiti 2021 |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 7 | 49 | 7 | 49 |
| Ysgol Min y Ddol | 14 | 98 | 20 | 140 |
| Ysgol Bryn Tabor | 42 | 294 | 45 | 315 |
| Ysgol Bodhyfryd | 49 | 343 | 60 | 420 |
| Ysgol I.D. Hooson | 45 | 315 | 45 | 315 |
| Ysgol Plas Coch | 30 | 210 | 45 | 315 |
| Ysgol Bro Alun | 0 | 0 | 45 | 315 |
| Cyfanswm | 187 | 1309 | 267 | 1869 |

| Ysgol | Cynnydd Mynediad | Cynnydd Capasiti |
|---|---|---|
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 0 | 0 |
| Ysgol Min y Ddol | 6 | 42 |
| Ysgol Bryn Tabor | 3 | 21 |
| Ysgol Bodhyfryd | 11 | 77 |
| Ysgol I.D. Hooson | 0 | 0 |
| Ysgol Plas Coch | 15 | 105 |
| Ysgol Bro Alun | 45 | 315 |
| Cyfanswm | 80 | 560 |

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam. Rydym wedi cynyddu capasiti yn yr ysgol hon drwy greu darpariaeth chweched dosbarth annibynnol o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Datblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach yw ein gweledigaeth o hyd ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd creu cyfleoedd i holl ddisgyblion Wrecsam fod yn ddwyieithog er mwyn iddynt allu dod allan o'n system addysg yn falch o'u hunaniaeth ac yn hyderus yn defnyddio'r ddwy iaith. Trwy hyrwyddo dwyieithrwydd, rydym yn ehangu gorwelion ein plant; yng nghyd-destun Cymru, mae ar gyflogwyr angen cynyddol am weithlu dwyieithog a dywed ymchwil wrthym fod dysgu mwy nag un iaith yn hwyluso'r broses o ddysgu ieithoedd eraill.

Rydym hefyd yn cydnabod bod defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i gatiau'r ysgol yn ffactor hollbwysig. Bydd y Cyngor, trwy ei Strategaeth Iaith Gymraeg ei hun a'r Fforwm Cymraeg Mewn Addysg, yn parhau i gydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i hyrwyddo ac ehangu ar y cyfleoedd hyn. Ymhlith manteision eraill, mae'r partneriaethau hyn yn anelu at sicrhau bod dysgwyr Wrecsam yn gallu defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd a bod dinasyddion yn magu'r hyder i fyw yn ddwyieithog.

Gan gymryd hyn oll i ystyriaeth, ein gweledigaeth ar gyfer y deng mlynedd nesaf yw:

- Cydnabod hawl pob plentyn i ddysgu Cymraeg a hyrwyddo manteision dwyieithrwydd yn weithredol, gan sicrhau y caiff rhieni'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus ar bob cam.
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach a sicrhau ei fod ar gael i'r holl ddysgwyr o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartrefi;

- Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol a hybu'r safonau academaidd uchaf posibl;
- Bod rhieni sy'n dewis lleoliad cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant yn y blynyddoedd cynnar yn cael eu hannog i barhau ag addysg cyfrwng Cymraeg am weddill eu haddysg.
- Bod Wrecsam yn cael ei gweld gan siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru fel lle dymunol i fyw ac i weithio gyda chymuned Gymraeg fywiog.

O dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus o bob rhan o Gymru a enwir yn y Ddeddf weithio tuag at wireddu'r saith nod llesiant, yn cynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Bydd Fforwm Cymraeg Mewn Addysg Wrecsam a'n CSCA yn dod â rhanddeiliaid ynghyd ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n cefnogi'r nodau llesiant. Yn benodol bydd y Fforwm yn sicrhau cynllunio a phartneriaethau hirdymor er mwyn gwneud yn siŵr bod darpariaeth addysg yn Wrecsam yn cefnogi'r nod o gymdeithas fwy cyfartal sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau gan greu cymdeithas gynaliadwy sy'n hyrwyddo ac yn diogelu'r Gymraeg a threftadaeth a diwylliant yn Wrecsam ac yn ein cymunedau cyfagos.

## 2. Trefniadau Ymgynghori

Cafodd y ddogfen ymgynghori hon ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac ar gael i'r canlynol yn unol ag Adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013:

- Cyrff Llywodraethu a Phenaethiaid pob ysgol a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Sir y Fflint.
- Cyngor Sir Ddinbych:
- Cyngor Powys
- Coleg Cambria
- Prifysgol Glyndŵr;
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Esgobaeth Llanelwy
- Fforwm Blynyddoedd Cynnar Wrecsam
- CaBan – Partneriaeth Caer/Bangor Gogledd Cymru
- Mudiad Meithrin
- Yr Urdd
- Menter Iaith Fflint a Wrecsam.
- Senedd yr Ifanc
- Merched y Wawr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg)
- Cymdeithas yr Iaith

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ddydd Llun 1 Tachwedd 2021 a daeth i ben ddydd Gwener 31 Rhagfyr 2021.

## 3. Poblogaeth a Nodweddion Ieithyddol


Yn ôl Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2021 roedd 17,962 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn (CALI) ym mhob ysgol yn Wrecsam, yn cynnwys*:

- 10,959 disgybl CALI mewn ysgolion cynradd
- 6649 disgybl CALI mewn ysgolion uwchradd (yn cynnwys Chweched Dosbarth)
- 273 disgybl CALI yn yr ysgol arbennig
- 53 disgybl yn yr Uned Atgyfeirio Disgyblion
- *Disgyblion â statws ymrestru C neu M yn unig
- 10 disgyblion CALI yn Ysgol Cae'r Gwenyn ddim yn cael eu cyfrif ar hyn o bryd.

### GiSC - Gallu i Siarad Cymraeg % (Wrecsam) * Diwedd chwarter Rhagfyr

| Blwyddyn | Canran % |
|---|---|
| 2011 | 20% |
| 2012 | 21.1% |
| 2013 | 20.9% |
| 2014 | 20.8% |
| 2015 | 27% |

| Blwyddyn | Canran % |
|---|---|
| 2016 | 28.3% |
| 2017 | 25.9% |
| 2018 | 26.5% |
| 2019 | 24.7% |
| 2020 | 23.7% |



## Sgiliau Iaith Gymraeg: Wrecsam

Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 16,659 o bobl (pob oedran 3+) yn Wrecsam yn gallu siarad Cymraeg; roedd hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 19%.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol lefelau o sgiliau iaith Gymraeg (% yn y boblogaeth) yn Wrecsam o gymharu â'r % yn y boblogaeth yng Nghymru.

| Sgiliau Iaith Gymraeg | Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Canran y Boblogaeth % | Cymru | Canran y Boblogaeth % |
|---|---|---|---|---|
| Yr holl bobl 3 oed a throsodd | 129425 | - | 2955841 | - |
| Dim sgiliau Cymraeg | 101886 | 78.7 | 2167987 | 73.3 |
| Yn deall Cymraeg llafar yn unig | 7608 | 5.9 | 157792 | 5.3 |
| Cyfanswm siaradwyr Cymraeg | 16659 | 12.9 | 562016 | 19 |
| Yn siarad ond ddim yn darllen nac yn ysgrifennu Cymraeg | 3005 | 2.3 | 80429 | 2.7 |
| Yn siarad ac yn darllen ond ddim yn ysgrifennu Cymraeg | 1602 | 1.2 | 45524 | 1.5 |
| Yn siarad, darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg | 11867 | 9.2 | 430717 | 14.6 |
| Cyfuniad arall o sgiliau | 3457 | 2.7 | 73392 | 2.5 |

# 4. Y Ddarpariaeth Gymraeg Bresennol

Yn y ddogfen hon defnyddir dau set o ddata. Y cyntaf yw'r data gwaelodlin a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo targedau'r CSCA ar gyfer ein hawdurdod lleol. Mae hyn yn seiliedig ar ddata cyfrifiad ysgolion 2019/20, sef 235 disgybl ym Mlwyddyn 1 ysgolion cyfrwng Cymraeg Wrecsam, sy'n cynrychioli 15% o'r cohort hollgynhwysfawr. Byddwn yn defnyddio'r ffigwr hwn wrth gyfeirio at ein targed CSCA gwaelodlin ar gyfer cynyddu nifer y plant 5 oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ail set o ddata yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg Wrecsam fel yr adroddwyd yng nghyfrifiad ysgolion 2021, sef 208 disgybl ym Mlwyddyn 1. Byddwn yn defnyddio'r ffigwr hwn wrth gyfeirio at y capasiti presennol yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a llefydd dros ben.

Ar hyn o bryd mae 267 lle ar fynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg Wrecsam ar gael bob blwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys mynediad i'r ddarpariaeth ffrwd ddeuol yn Ysgol Cynddelw gan fod hwn yn parhau i fod yn hyblyg o fewn eu nifer mynediad cyhoeddedig o 18.

## Capasiti, Nifer ar y Gofrestr a Llefydd Gwag yn y sector cyfrwng Cymraeg

Caiff capasiti ysgolion ei bennu drwy arweiniad 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru' Llywodraeth Cymru sy'n darparu dull cadarn a chyson o asesu uchafswm capasiti ysgol a nifer y disgyblion y gall ei derbyn. Mae'r mesur capasiti yn pennu Nifer Derbyn pob ysgol ac felly'n chwarae rhan arwyddocaol mewn rhoi neu wrthod llefydd mewn ysgol. Ar sail capasiti ysgolion a niferoedd disgyblion ym mis Ebrill 2021, mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm y capasiti, nifer y disgyblion ar y gofrestr (Derbyn – Blwyddyn 6) a nifer y llefydd gwag (noder nad yw meithrin a disgyblion rhan amser yn cael eu cynnwys wrth bennu llefydd sbâr).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgolion fel yr oedd ar 20/04/2021.

| Ysgol | Capasiti | Nifer ar y Gofrestr | Llefydd Gwag | Canran Llefydd Gwag % |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 49 | 16 | 33 | 67.35 |
| Ysgol Min y Ddol | 140 | 94 | 46 | 32.86 |
| Ysgol Bryn Tabor | 315 | 234 | 81 | 25.71 |
| Ysgol Bodhyfryd | 420 | 313 | 107 | 25.48 |
| Ysgol I.D. Hooson | 315 | 253 | 62 | 19.68 |
| Ysgol Plas Coch | 315 | 266 | 49 | 15.56 |
| Ysgol Bro Alun | 315 | 233 | 82 | 26.03 |
| Cyfanswm | 1869 | 1409 | 460 | 24.61 |

Ysgolion â >25% lle sbâr yw'r rhai a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymraeg fel bod â nifer arwyddocaol o lefydd gwag. Er ei bod yn ymddangos bod digon o lefydd ar gael ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn gyffredinol nid ydynt yn yr ardaloedd lle mae angen datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth. Ar hyn o bryd mae gan bump ysgol gynradd Gymraeg nifer arwyddocaol o lefydd gwag

| Ysgol | AG | Meithrin | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 2 | 3 | 3 | 3 | 1 |
| Ysgol Min y Ddol | 0 | 18 | 16 | 13 | 17 |
| Ysgol Bryn Tabor | 8 | 24 | 30 | 36 | 23 |
| Ysgol Bodhyfryd | 15 | 45 | 39 | 36 | 52 |
| Ysgol I.D. Hooson | 0 | 22 | 30 | 32 | 41 |
| Ysgol Plas Coch | 0 | 42 | 29 | 44 | 39 |
| Ysgol Bro Alun | 0 | 43 | 35 | 44 | 41 |
| Cyfanswm | 25 | 197 | 182 | 208 | 214 |

| Ysgol | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Ysgol Min y Ddol | 13 | 16 | 16 | 3 |
| Ysgol Bryn Tabor | 44 | 34 | 37 | 30 |
| Ysgol Bodhyfryd | 48 | 42 | 50 | 46 |
| Ysgol I.D. Hooson | 45 | 26 | 37 | 42 |
| Ysgol Plas Coch | 42 | 39 | 38 | 35 |
| Ysgol Bro Alun | 28 | 29 | 28 | 28 |
| Cyfanswm | 222 | 188 | 209 | 186 |

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y llefydd gwag ar draws yr ystâd cyfrwng Cymraeg yn ôl grŵp blwyddyn.

| | | **Llefydd Gwag yn ôl Blwyddyn** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Nifer y disgyblion a dderbynnir** | **Derbyn** | **Bl.1** | **Bl.2** | **Bl.3** | **Bl.4** | **Bl.5** | **Bl.6** |
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 7 | 4 | 4 | 6 | 5 | 5 | 4 | 5 |
| Ysgol Min y Ddol | 20 | 4 | 7 | 3 | 7 | 4 | 4 | 17 |
| Ysgol Bryn Tabor | 45 | 15 | 9 | 22 | 1 | 11 | 8 | 15 |
| Ysgol Bodhyfryd | 60 | 21 | 24 | 8 | 12 | 18 | 10 | 14 |
| Ysgol I.D. Hooson | 45 | 15 | 13 | 4 | 0 | 19 | 8 | 3 |
| Ysgol Plas Coch | 45 | 16 | 1 | 6 | 3 | 6 | 7 | 10 |
| Ysgol Bro Alun * | 45 | 10 | 1 | 4 | 17 | 16 | 17 | 17 |
| Cyfanswm | 267 | 85 | 59 | 53 | 45 | 79 | 58 | 81 |

* noder bod y llefydd gwag yn Ysgol Bro Alun o ganlyniad i gyflwyno capasiti uwch o 45 o ddisgyblion o'r pwynt mynediad yn unig.

Nid yw defnyddio'r lefel presennol o lefydd gwag ar ei ben ei hun yn debygol o roi darlun cywir o dueddiadau mewn ysgolion neu ardaloedd unigol gan y gall grwpiau blwyddyn bach neu fawr gamystumio'r darlun.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Ysgolion Uwchradd

Ysgol Morgan Llwyd yw'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam. Rydym wedi cynyddu capasiti Ysgol Morgan Llwyd o 240 o lefydd drwy greu darpariaeth chweched dosbarth annibynnol o dan raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Bydd angen ymgynghori ymhellach yn y dyfodol i gynyddu'r nifer derbyn yn ffurfiol yn ôl yr angen er mwyn gwneud defnydd o'r llefydd sydd wedi'u gadael yn wag gan y chweched dosbarth.

| Ysgol | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Cyfanswm ar y Gofrestr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Morgan Llwyd | 163 | 152 | 150 | 149 | 130 | 744 |

| | Llefydd Gwag yn ôl Grŵp Blwyddyn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Cyfanswm ar y Gofrestr |
| Ysgol Morgan Llwyd | 30 | 41 | 43 | 44 | 63 | 221 |
| Canran llefydd gwag % | 15.54 | 21.24 | 22.28 | 22.80 | 32.64 | 22.90 |

Dros y pum mlynedd ddiwethaf y gyfradd symud o Flwyddyn 6 yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i Flwyddyn 7 yn Ysgol Morgan Llwyd oedd 91.49%. Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun ehangach cynnydd cyffredinol ym maint ein carfan cyfrwng Cymraeg o 155 o ddisgyblion yn dechrau Bl.7 yn 2019 i 188 yn 2022.

## Darpariaeth ôl 16

Mesur o lwyddiant chweched dosbarth yw ei allu i ddal gafael ar ddysgwyr ar ddiwedd Blynyddoedd 11 ac 12. h.y. ar ôl arholiadau allanol TGAU a Lefel AS. Mae niferoedd Blwyddyn 11 yn Ysgol Morgan Llwyd wedi amrywio dros y blynyddoedd diweddar yn sgil buddsoddi ac ehangu sylweddol yng Ngholeg Cambria. Fodd bynnag mae'r ffigyrau diweddaraf yn dechrau dangos effaith y ddarpariaeth chweched dosbarth newydd yn Ysgol Morgan Llwyd.


| Ysgol | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 | Cyfanswm ar y gofrestr - Darpariaeth Ôl 16 |
|---|---|---|---|
| Ysgol Morgan Llwyd | 55 | 35 | 90 |

| Blynyddoedd Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) | Cohort Blwyddyn 11 | Nifer y disgyblion yn trosglwyddo i Blwyddyn 12 | Canran y Cohort yn trosglwyddo i Blwyddyn 12 % |
|---|---|---|---|
| 2016 - 2017 | 120 | 58 | 48.3 |
| 2017 - 2018 | 113 | 37 | 32.7 |
| 2018 - 2019 | 113 | 33 | 29.2 |
| 2019 - 2020 | 114 | 36 | 31.6 |
| 2020 - 2021 | 129 | 55 | 42.6 |

## 5. Y Gweithlu (Athrawon a Chymorthyddion Addysgu)


Rydym wedi defnyddio data am sgiliau iaith Gymraeg gweithlu'r ysgol a gafwyd o'r cyfrifiad sgiliau i ddynodi'r bylchau presennol ac i weld ymhle y mae bylchau'n debygol o fod yn y dyfodol. Mae'r siartiau isod yn rhoi amlinelliad o lefelau gallu.

| Sgiliau Iaith Gymraeg | Canran % |
|---|---|
| Dim sgiliau | 13.54 |
| Lefel Mynediad | 26.73 |
| Lefel Sylfaen | 25.97 |
| Lefel Canolradd | 10.24 |
| Lefel Uchel | 3.72 |
| Lefel Arbenigol | 19.20 |
| Dim gwybodaeth ar gael | 0.59 |



## Staff addysgu sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg: Wrecsam 2019

| | Rhif | Canran % |
|---|---|---|
| Staff addysgu sy'n cyflwyno gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg | 188 | 15.91 |
| Staff sy'n gallu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd | 84 | 7.11 |
| Staff sydd ddim yn gallu dysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | 416 | 35.19 |
| Staff sy'n cyflwyno'r Gymraeg fel pwnc yn unig | 494 | 41.79 |



## 6. Darpariaeth Iaith Gymraeg ar gyfer Hwyrddyfodiaid

Datblygwyd ymdriniaeth fwy strategol i gefnogi plant sy'n dod yn hwyr i addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd yn ystod oes y cynllun blaenorol. Ym mis Medi 2018 crëwyd rôl cydlynydd allgymorth i gefnogi disgyblion sy'n newydd i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae deiliad y swydd yn cefnogi unigolion neu grwpiau bach ym mhob ysgol gynradd ar sail wythnosol ac wedi datblygu adnoddau y gall yr athrawon dosbarth eu defnyddio i gyfnerthu'r gwaith rhwng ymweliadau. O dan ddeiliad presennol y swydd mae'r rôl hefyd wedi'i hymestyn i gefnogi rhieni sy'n dewis symud eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg, drwy sefydlu platfform cyfryngau cymdeithasol lle ceir dolenni at ddeunyddiau cefnogi perthnasol.

Mae'r ddarpariaeth hon wedi bod yn arbennig o effeithiol yn ystod cyfnod cythryblus Covid-19 a'r amhariad ar addysgu yn sgil hynny. Mae wedi cynnwys ymdriniaeth amlochrog a hyblyg tuag at ddysgu cyfunol sydd wedi'i werthfawrogi gan ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a theuluoedd sy'n siaradwyr Cymraeg, a rhai sydd ddim, fel ei gilydd.

Mae nifer yr hwyrddyfodiaid sy'n derbyn cymorth wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r drefn newydd hon ddechrau, o 18 ym mis Medi 2018 i 58 erbyn mis Ebrill 2021 a 62 ym mis Mehefin 2022. Mae hyn yn nodi pwysigrwydd y swydd a bydd cynnal hyn yn flaenoriaeth yn y Cynllun newydd. Mae'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021 yn ein caniatáu i ymgymryd ag adolygiad o'n strwythur a bydd model darparu newydd yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2022, yn amodol ar gais llwyddiannus am gyllid pellach. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu 'Tîm Trochi' i gefnogi hwyrddyfodiaid ar draws ysgolion cynradd ac i GA2. Mae rhagor o fanylion am y ffrwd waith hon a'r model diwygiedig i'w gweld dan Ganlyniad 3, isod.

## 7. Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cyflwynwyd newidiadau arwyddocaol yng Nghymru o fis Medi 2021 mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol angenrheidiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag AAA neu ADY. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn cadw'r trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr gydag AAA neu ADY yn eu hardal dan adolygiad ac i ystyried a yw'r trefniadau hyn yn ddigonol. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 hefyd yn cynnwys gofyniad statudol i gymryd camau rhesymol i greu system cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o gefnogaeth ar gyfer dysgwyr ag AAA neu ADY. Ar hyn o bryd mae 3 Darpariaeth ag Adnoddau generig o fewn yr Awdurdod Lleol;

- Un ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen ac un CA2 yn Ysgol Bodhyfryd sydd â lle i 8 ac 11 o ddysgwyr yn y drefn honno.
- Un ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Morgan Llwyd gyda lle i 16 o ddysgwyr.

Caiff lleoliadau yn y darpariaethau hyn eu cytuno gan Banel Cymedroli Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol.

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o holl ddarpariaethau arbenigol yr Awdurdod Lleol yn ddiweddar a bydd yr argymhellion yn dilyn maes o law.

Mae angen rhagor o ddatblygu er mwyn gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn lleoliadau arbenigol yr Awdurdod Lleol, megis yr ysgol arbennig a'r Uned Atgyfeirio Disgyblion. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydnabod fod ganddo rwymedigaeth i gyflawni darpariaeth gydradd i ddysgwyr ag ADY yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau bod darpariaeth ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg yn cyd-fynd ag anghenion dysgwyr fel y maent yn dod i'r amlwg a bod mwy o gapasiti i gefnogi dysgwyr gydag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy fod â mwy o staff sy'n siarad Cymraeg mewn timau canolog yn ogystal ag mewn sefydliadau partner. Bydd angen adolygu'r adnoddau iaith Gymraeg presennol a bydd yr Awdurdod Lleol yn cydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod ysgolion Wrecsam a dysgwyr Wrecsam yn cael mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnynt.

# 8. Cludiant i'r Ysgol

Mae ar Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan Adran 10 o Fesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad at ddysgu a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Awdurdod Lleol Wrecsam yn diwallu'r ddyletswydd statudol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr.

Mae dysgwyr yn Wrecsam yn gymwys am gludiant am ddim i'r ysgol os:

- Ydynt yn breswylwyr yn Wrecsam
- O oedran ysgol gorfodol h.y. 5-16
- Yn mynychu eu hysgol addas agosaf
- Yn byw o leiaf 2 filltir o'r ysgol os ydynt o oedran ysgol gynradd;
- Yn byw o leiaf 3 milltir o'r ysgol os ydynt o oedran ysgol uwchradd.

## Mynediad at Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellir uchod, mae'r Cyngor y darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer darpariaethau cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

## Darpariaeth Cynradd

Bydd disgyblion yn cael cludiant am ddim os ydynt yn bodloni'r meini prawf pellter a amlinellir uchod. Ni fydd cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion y mae eu rhieni'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar eu cyfer mewn ysgol ar wahân i'r ysgol addas agosaf.

## Darpariaeth Uwchradd

Bydd disgyblion yn cael cludiant am ddim os ydynt yn bodloni'r meini prawf pellter a amlinellir uchod. Ni fydd cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion y mae eu rhieni'n dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd ar eu cyfer mewn ysgol ar wahân i'r ysgol addas agosaf.

## Darpariaeth ôl 16

Nid yw Cyngor Wrecsam yn darparu cludiant i fyfyrwyr ôl 16 oed.

## 9. Categorïau Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Mae'n rhaid i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru roi gwybod i rieni a Llywodraeth Cymru ym mha iaith y maent yn bwriadu addysgu; gall hyn fod drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu gyfuniad o'r ddwy iaith. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer dosbarthu ysgolion yn ôl darpariaeth iaith Gymraeg yn rhan o ddiwygiadau addysgol ehangach, gan gynnwys Cymraeg: Miliwn o siaradwr Cymraeg a chyflwyniad y cwricwlwm newydd yn 2022.

Mae yna ddeddfwriaeth benodol sy'n rhoi dyletswydd a gofyniad ar ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr am y cyfrwng iaith y darperir y cwricwlwm drwyddo. Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ysgolion ac awdurdodau ei chyhoeddi yn eu prosbectysau ysgol unigol ac awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gategorïau iaith ysgol i ddibenion CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion).

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y categorïau ieithyddol arfaethedig rhwng 14 Rhagfyr 2020 a 25 Mawrth 2021 felly nid yw'r diwygiad wedi'i gwblhau eto. Fodd bynnag mae crynodeb byr o'r categorïau arfaethedig wedi'i gynnwys ar y dudalen nesaf. Gellir cael ragor o wybodaeth a manylion ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn Wrecsam diffinnir ein darpariaeth bresennol fel a ganlyn:

| Categori/Diffiniad | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Dwy Ffrwd |
|---|---|---|---|
| Meithrin | 1 | 0 | 0 |
| Cynradd | 49 | 7 | 1 |
| Uwchradd | 8 | 1 | 0 |
| Cyfanswm | 58 | 8 | 1 |

Mae saith ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, 12.285% o'r ddarpariaeth. Mae un ysgol gynradd dwy ffrwd, 1.75% o'r ddarpariaeth.

## 10. Targed CSCA

Yn unol â'r rheoliadau, mae'n rhaid i'n cynllun gynnwys targed yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes y cynllun. Mae'r fethodoleg i gyfrifo'r targed uchod yn cyd-fynd â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ymwneud â'r cynnydd yn nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Gymraeg sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r targed yn seiliedig ar nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 (5/6 oed), gyda data'n dod o'r CYBLD. Mae Llywodraeth Cymru wedi seilio eu targed ar CYBLD 2019/20 sy'n rhoi llinell sylfaen i Wrecsam o 235, er yn CYBLD 2021 roedd 208 o ddisgyblion ar y gofrestr ym Mlwyddyn 1.

| | | Targed 2030/31 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Disgyblion 2019/20** | **Is** | **Gwahaniaeth** | **Uwch** | **Gwahaniaeth** |
| Disgyblion | 235 | 360 | 125 | 425 | 190 |
| Cohort | 1567 | 1567 | - | 1567 | - |
| Canran Cyfrwng Cymraeg % | 15.0 | 23 | - | 27 | - |

Noder: Mae'r targed uchod wedi'i ragamcanu ar y gwaelodlin o 1567 o ddisgyblion Bl1.

| | | Targed 2030/31 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Llefydd ar Gael** | **Is** | **Gwahaniaeth** | **Uwch** | **Gwahaniaeth** |
| Disgyblion | 267 | 360 | 93 | 425 | 158 |

Mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u rhoi yn un o bedwar grŵp; mae Wrecsam yn Grŵp 3 h.y. rhwng 14% a 19% o blant Bl 1 yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Yr awdurdodau eraill yn y grŵp hwn yw: Abertawe, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili a Chaerdydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targed pegwn is a phegwn uwch ar gyfer Wrecsam.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd 8 pwynt canran (pegwn is) a chynnydd 12 pwynt canran (pegwn uwch) yn nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu dwy gyfrwng y Gymraeg. Tra dylid trin y pegwn is fel yr isafswm i'w gyrraedd, ni ddylid trin y pegwn uchaf fel uchafswm.

Yn 2019/20 (CYBLD 2020), roedd 235 o ddisgyblion Bl 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Wrecsam. Mae hyn yn cynrychioli 15% o'r cohort cyfan a'r gwaelodlin ar gyfer ein targed 10 mlynedd.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r data gwaelodlin wedi'i ddilyn â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer Wrecsam. Dylid nodi bod targedau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar faint y cohort fel yr oedd yn nata cyfrifiad ysgolion 2019/20. Am y rheswm hwn bydd gwir nifer y disgyblion sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targedau pegwn is ac uwch yn dibynnu ar faint gwirioneddol y cohortau dros y 10 mlynedd nesaf:

| Ysgol | Disgyblion Blwyddyn 1 (CYBLD 2019/20) |
|---|---|
| Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog | 1 |
| Ysgol Min y Ddol | 17 |
| Ysgol Bryn Tabor | 23 |
| Ysgol Bodhyfryd | 55 |
| Ysgol I.D. Hooson | 43 |
| Ysgol Plas Coch | 41 |
| Ysgol Bro Alun | 41 |
| Ysgol Cynddelw | 14 |
| Cyfanswm | 235 |
| Cyfanswm Canran % | 15.0 |
| Cyfanswm Cohort | 1567 |

| | Disgyblion 2019/20 Gwaelodlin | | Targed 2030/31 Pegwn is | | Targed 2030/31 Pegwn Uwch | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Canran % | Rhif | Canran % | Rhif | Canran % |
| Wrecsam | 235 | 15.0 | 360 | 23.0 | 425 | 27.0 |

## Gwaelodlin ar gyfer gwir nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ar draws Wrecsam

- 2021 267 (14.65%)
- 2022 297 (15.9%) gan gynnwys Ysgol Llan-y-pwll

Mae'r gwaelodlin ar gyfer darpariaeth o 267 o lefydd ar fynediad, nid yw hyn yn cynnwys y derbyniadau amrywiol yn ein hysgol ddwy ffrwd yng Nghynddelw.

Y targed is yw 360 sydd ar hyn o bryd yn rhoi bwlch o 93 yn y ddarpariaeth.

Y targed uwch yw 425 sydd ar hyn o bryd yn rhoi bwlch o 158 yn y ddarpariaeth

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad trosfwaol ar gyfer y deng mlynedd nesaf, o ran sut fydd y Cyngor yn cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg. Dan y ddogfen strategol hon, bydd cynllun gweithredu sy'n tanategu'r weledigaeth ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl yn nhermau gweithgarwch a chynnydd. Mae Fforwm Cymraeg mewn Addysg yn monitro cynnydd y camau gweithredu hynny, ac mae hyn yn ffurfio sail i adroddiad cynnydd blynyddol y Cyngor i Lywodraeth Cymru ar ei Gynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg.

# 11. Deilliannau CSCA

## Deilliant 1: Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni arni rŵan?

Mae'r sefyllfa bresennol, yn nhermau darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, swydd wedi cofrestru gyda Chyngor Wrecsam fel a ganlyn:

| Math y Darparwr | Nifer y darparwyr |
|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 5 |
| Gofalwr Plant | 2 |
| Gofal Dydd fesul Sesiwn | 4 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | 1 |

Rydym wedi gweithio'n agos â'n partner allweddol strategol, Mudiad Meithrin, ar y deilliant hwn a byddwn y parhau i wneud hynny yn ystod oes y CSCA nesaf.

Mae llwybr clir a diffiniedig ar gyfer plant o'n darpariaeth cyn ysgol, i mewn i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Yn 2018/19, sef y flwyddyn olaf lawn o ddata sydd ar gael cyn covid, roedd 13 lleoliad cyfrwng Cymraeg yn cynnig darpariaeth cyn ysgol ledled y Fwrdeistref Sirol—cyfanswm o 15 sesiwn wythnosol. Cafodd 312 o blant eu trosglwyddo o'r lleoliadau hyn i ysgolion. O'r 15 sesiwn, roedd gan 12 ohonynt gyfradd drosglwyddo o 100% i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Arweiniodd y pandemig at ostyngiad cenedlaethol mewn plant yn mynd i ddarpariaeth cyn ysgol ymhobman, ac mae'r gwaith adfer yn parhau. Mae cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei defnyddio'n benodol i gefnogi hyn, er enghraifft, mae cyfran o'n cyllid RRRS wedi'i ddyrannu i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn y 39 o leoliadau Addysg Gynnar a ariennir ond nas cynhelir, rhai cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Rydym wedi comisiynu Menter Iaith i fynd i leoliadau a chynnig cefnogaeth unigryw yn seiliedig ar anghenion y lleoliad. Roeddent yn cynnig cyngor ar ddatblygu'r Gymraeg ynghyd â modelu amser stori, cân a rhigwm yn y Gymraeg ar lefel briodol ar gyfer hyder y staff a cham datblygu'r plant. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r cymeriad Magi Ann a darparu adnoddau i blant fynd gyda nhw i hyrwyddo'r Gymraeg gyda'r rhieni.

Mae'r gweithgareddau yn ystod y CSCA diwethaf wedi bod ar y canlynol:

## Cymraeg i Blant

Nod y rhaglen Cymraeg i Blant yw cynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill y teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a chefnogi datblygiad ieithyddol plant yn gymdeithasol ac yn addysgol. Dros y tair blynedd ddiwethaf mae swyddog Cymraeg i Blant wedi bod yn gweithio yn ardal Wrecsam (rhan amser) i redeg sesiynau cefnogaeth ar gyfer darpar rieni a rhieni newydd e.e. sesiynau tylino babanod, yoga babanod a Stori, Arwyddo a Chanu. Yn ychwanegol, mae'r swyddog wedi mynychu sesiynau cyn ac ar ôl geni i rannu gwybodaeth am fanteision cyflwyno'r iaith Gymraeg ac i rannu gwybodaeth am ofal ac addysg iaith Gymraeg drwy weithio gydag Ymwelwyr Iechyd a Bydwragedd yn y sir.

Ers dechrau'r cyfnod COVID, mae Cymraeg i Blant wedi parhau i gefnogi rhieni'n rhithiol gydag amrywiaeth o sesiynau yn cynnwys: Stori a Chân, Tylino Babanod a Yoga ar gyfer rhieni newydd, Fi a fy mabi yn ogystal â sesiynau ymarfer corff iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr newydd. Mae'r swyddog yn adolygu'r ardaloedd daearyddol lle darperir y sesiynau'n gyson gan alinio'r rhain â chynllun SAS Mudiad Meithrin yn ogystal ag unrhyw ddatblygiadau mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod Lleol. Yn ystod y cyfnod clo mae cydweithio â'r sector iechyd a phartneriaid eraill wedi parhau o bell gyda chyflwyniadau i fyfyrwyr bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd wedi ailgychwyn y ogystal â chydweithio ar lawr gwlad.

## Ti a Fi

Noddwyd swyddog Ti a Fi gan Mudiad Meithrin i gynnal llwybr clir ar gyfer rhieni ar ôl mynychu sesiynau Cymraeg i blant i'w harwain i'r Cylch Meithrin ac addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd 9 cylch Ti a Fi yn Wrecsam cyn y pandemig sy'n awr yn ailddechrau'n raddol.

## Ehangu Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar

Cynyddwyd capasiti'r Cylch Meithrin yn Ysgol Bro Alun drwy grant cyfalaf i godi adeilad dwy ystafell newydd a fydd yn creu capasiti i'r ysgol gynyddu o 210 i 315. Mae niferoedd yn y Cylch Meithrin wedi cynyddu i wneud lle ar gyfer 67 o blant dros ddwy flwyddyn ysgol. Mae addysg cyn-ysgol ar gael gyda'r cynllun gofal plant yn cael ei gynnig yn ogystal â gofal dydd rhwng 8.05am a 5.10pm, Adeiladwyd darpariaeth y blynyddoedd cynnar newydd yn Min y Ddol gan ddefnyddio'r grant cyfalaf, ac fe'i agorwyd ym mis Medi 2021 gan ryddhau lle yn yr ysgol. Agorodd y Cylch newydd yn Borras ym mis Ionawr 2022, gyda'r Arweinydd a'r pwyllgor yn awr wedi'u penodi. Agorodd Cylch Antur ym mis Ionawr 2021 mewn partneriaeth â Meithrinfa Homestead drwy gynllun SAS i gynnig cylch chwarae i blant yn ardal Gresffordd. Agorodd Cylch Meithrin Bryn Tabor ym mis Ionawr 2020 ac mae cynllunio wedi dechrau i agor darpariaeth yn ardal Rhiwabon – fel rhan o'r cynllun SAS.

## Croesi'r Bont

Rydym wedi parhau i ddarparu a datblygu Croesi'r Bont fel rhaglen trochi ar gyfer pontio ieithyddol rhwng y Cylchoedd Meithrin a dosbarthiadau meithrin ysgolion cyfrwng Cymraeg Wrecsam. Mae pob cylch meithrin bellach yn rhan o'r cynllun.

Yn ogystal, derbyniwyd cyllid trwy'r Rhaglen Dechrau'n Deg fel bod pob Cylch yn Wrecsam yn rhan o'r rhaglen trochi Croesi'r Bont.

## Clwb Cwtch

Mae Clwb Cwtch yn gwrs blasu 8 wythnos wedi'i anelu at ddysgwyr newydd gan ganolbwyntio ar iaith rhianta yn y cartref. Caiff sesiynau byw eu darparu gan dîm o ddarparwyr Clwb Cwtch ar Microsoft Teams, ac yn y gymuned. 14 o ardal Borras wedi cofrestru ar gyfer y sesiynau rhithiol.

## Dechrau'n Deg

Wrth gychwyn gyda'r gwasanaeth Dechrau'n Deg, mae gofyn i rieni/gofalwyr gwblhau'r ffurflen gofrestru Dechrau'n Deg. Mae'r ffurflen yn cynnwys cynnig gweithredol Cymraeg, gan ofyn i rieni a hoffent dderbyn y gwasanaeth Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Tîm Iechyd a Rhianta yn darparu rhestr lawn o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg a Saesneg, sy'n cynnig gofal plant Dechrau'n Deg i rieni er mwyn iddynt allu dewis eu lleoliad a ffafrir. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ein lleoliadau cyfrwng Cymraeg ac i ddiogelu dewis rhieni o ran gofal plant cyfrwng Cymraeg, mae amrywiaeth i feini prawf y Fframwaith gwreiddiol yn parhau i fod ar waith ar gyfer lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn unig. Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg gael lleiafswm o bedwar plentyn yn gofyn am ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn eu lleoliad er mwyn gweithredu.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn y lleoliadau canlynol ar hyn o bryd:-

- Bodhyfryd yn Hightown
- Ffordd y Gardden ym Mhant
- Min y Ddôl yng Nghefn Mawr
- Cylch Summerhill ym Mrymbo

Yn ychwanegol i gefnogaeth gynhwysol y Gymraeg, bydd Dechrau'n deg yn parhau i ddarparu cefnogaeth Cymraeg gan ddefnyddio'r sgiliau a'r strategaethau a gafwyd o'r Cynllun Iaith 'Croesi'r Bont' (gweler uchod). Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ariannu ar y cyd rhwng Dechrau'n Deg ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar ers 2017. Mae'n cyflwyno patrymau iaith clir i'r staff eu hatgyfnerthu gyda'r plant. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant yn dangos cynnydd gwych gyda datblygiad eu Cymraeg beth bynnag fo'u pwynt dechrau gyda chynnydd yn cael ei ymgorffori.

Mae pob un o'n lleoliadau cyfrwng Saesneg yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg drwy ddefnyddio caneuon, rhigymau, straeon, Cymraeg achlysurol, a dathlu diwylliant Cymru a digwyddiadau arbennig.

Mae gan y Tîm Dechrau'n Deg ddau Athro Ymgynghorol a Swyddog Gofal Plant sy'n siarad Cymraeg i gefnogi lleoliadau gofal plant Cyfrwng Cymraeg. Rydym yn parhau i gael Ymarferydd Iaith a Chwarae sy'n siarad Cymraeg. Mae Rheolwr Iechyd ac Ymwelydd Iechyd sy'n siarad Cymraeg yn gallu cyfathrebu gyda theuluoedd yn Gymraeg. Byddwn yn parhau i annog a chefnogi staff yn weithredol i gwblhau Hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Cymraeg drwy gymryd rhan mewn hyfforddiant ar gyfer bob lefel.

## Trosglwyddiad o'r Cyfnod Sylfaen i Addysg y Blynyddoedd Cynnar/ Meithrinfa Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg yn Unig

| Trosglwyddiad Cyfrwng Cymraeg i ABC/MCS | Bodhyfryd | Pant | Summerhill | Min y Ddol | Cyfanswm 2020 - 2021 | Cyfanswm 2019 - 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y plant sy'n gadael gofal plant CS yn ystod y cyfnod | 16 | 7 | 6 | 9 | 38 | 44 |
| Cyfanswm nifer y plant sy'n gadael gofal plant CS ac yna'n parhau i ABC/ MCS | 16 | 7 | 5 | 9 | 37 | 42 |
| Cyfanswm nifer y plant sy'n gadael gofal plant CS ac yna'n parhau i ABC/MCS cyfrwng Cymraeg | 14 | 2 | 4 | 6 | 26 | 25 |
| Canran sy'n parhau i ABC/MCS % | 100.00 | 100.00 | 83.30 | 100.00 | 97.4 | 95.5 |
| Canran sy'n parhau i ABC/MCS a barhaodd gyda'u darpariaeth cyfrwng Cymraeg % | 87.5 | 28.6 | 80.0 | 66.7 | 70.3 | 59.5 |

- Parhaodd 97.4% o blant a gafodd ofal plant CS cyfrwng Cymraeg i ABC neu MCS (cynnydd o 1.9 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)
- O'r plant hyn a gafodd ofal plant cyfrwng Cymraeg a pharhau i addysg – parhaodd 70.3% eu darpariaeth mewn darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg (cynnydd o 10.8 o'i gymharu â 19-20). Mae hyn yn faes y byddwn yn canolbwyntio arno i'w wella yn ystod cyfnod cyntaf y CSCA.
- Gadawodd 29.7% ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dechrau eu haddysg mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg. Byddwn yn ceisio gostwng hyn yn flynyddol dros gyfnod y CSCA.

## Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?

Bydd y gwaith i ail adeiladu ein lleoliadau i lefelau cyn covid yn cael ei barhau fel blaenoriaeth uniongyrchol i ni.

Byddwn yn lansio ein gwefan newydd yn yr haf 2022, wedi'i hariannu drwy gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd yn hydref 2021. Bydd y wefan yn ganolbwynt ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam, lle bydd gwybodaeth ar gael yn rhwydd i deuluoedd sy'n cael mynediad i'r ddarpariaeth ar hyn o bryd, sy'n ei hystyried yn y dyfodol, neu sydd â diddordeb mewn canfod rhagor am beth sydd ar gael. Bydd y wefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gyda newyddion, digwyddiadau, adnoddau a gweithgareddau sydd ar gael yn lleol drwy gyfrwng y Gymraeg yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â'n sefydliadau partner ar y Fforwm Cymraeg. Y nod yw sicrhau bod pob rhiant yn gwybod am ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plentyn, yn deall sut i wneud cais am le, pa wybodaeth sydd ar gael iddynt fel teuluoedd ar y siwrnai honno, a pha gyfleoedd gall bod yn ddwyieithog eu cynnig iddynt hwy a'u plant.

### Ehangu Dechrau'n Deg

Byddwn yn gweithio i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y tîm Dechrau'n Deg a'n Tîm Trochi newydd i sicrhau bod pob rhiant yn deall y dewis o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd sy'n gwneud y dewis hwnnw.

I gynyddu'r canran o rieni / gofalwyr sy'n dewis darpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant ac i sicrhau ei fod ar gael, o fewn pellter rhesymol o'u cartref, rydym yn cymryd y camau canlynol:

- rydym wedi mapio darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg presennol yn Wrecsam a lle bo'r rhain o fewn pellter rhesymol o'n hardaloedd ehangu newydd
- lle bo darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn bodoli eisoes, os yw'n darparu darpariaeth Dechrau'n Deg byddwn yn dechrau trafod y dewis o gynyddu capasiti lleoedd yn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg presennol
- lle bo darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn bodoli eisoes ond nad ydynt yn darparu darpariaeth Dechrau'n Deg, byddwn yn dechrau trafod y dewis o ddarparu darpariaeth Dechrau'n Deg yn y lleoliadau hynny
- mae trafodaethau am gynyddu nifer y lleoedd gyda darparwyr Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg presennol, neu ddarparwyr Cyfrwng Cymraeg eraill sydd am ddechrau cyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg, ar y gweill mewn partneriaeth gyda Mudiad Meithrin a Thîm Gofal Plant Wrecsam
- bydd cynlluniau ehangu darpariaeth yn cael eu rhannu a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal gyda phartneriaid CWLWM i drafod cynigion a sicrhau cyfranogiad a chefnogaeth budd-ddeiliaid perthnasol.

## Cymraeg i Blant

Byddwn yn parhau i gefnogi rhieni drwy hyrwyddo ac ehangu sesiynau cefnogi ar gyfer darpar rieni a rhieni newydd drwy gynnig sesiynau tylino babanod, yoga babanod a Stori, Arwyddo a Chân.

Yn ychwanegol at hynny, bydd y swyddog Mudiad Meithrin yn mynychu sesiynau cyn ac ar ôl geni i rannu gwybodaeth am fanteision cyflwyno'r iaith Gymraeg a rhannu gwybodaeth am ofal ac addysg iaith Gymraeg drwy weithio gydag Ymwelwyr Iechyd a Bydwragedd yn y sir. Mae cyfle i gryfhau'r gwaith hwn e.e. bydd yr Athro Ymgynghorol Dechrau'n Deg yn darparu sesiwn gyda'r tîm ehangach yn amlinellu manteision cael mynediad i leoliadau cyfrwng Cymraeg, fel y gellir pasio negeseuon allweddol ymlaen i rieni wrth iddynt gwblhau ffurflenni cais. Bydd Ymwelwyr Iechyd yn ymwybodol o wefan newydd www.agw.cymru a'r adnoddau arni, i'w rhannu gyda rhieni. Bydd adnoddau eraill megis taflenni gwybodaeth am fanteision addysg ddwyieithog yn cael eu rhannu hefyd.

## Ti a Fi

Byddwn yn parhau i gyfrannu tuag at ariannu Swyddog Ti a Fi Mudiad Meithrin er mwyn cynnal llwybr clir ar gyfer rhieni ar ôl iddynt fynychu sesiynau Cymraeg i Blant, ymlaen i Ti a Fi ac yna i'r Cylch Meithrin ac addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau parhad y cyfrwng dysgu drwy gydol siwrnai'r plentyn mewn addysg. Bydd Mudiad Meithrin yn ariannu swydd ychwanegol yn amodol ar fynediad parhaus at gyllid.

## Ymestyn Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod yr Asesiad o Ddigonoldeb Gofal Plant yn diwallu'r angen am ddarpariaeth iaith Gymraeg drwy gryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg gan sicrhau llwybr di-dor at addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd Cylch Meithrin Borras a agorwyd ym mis Medi 2021 yn paratoi'r ffordd ar gyfer agoriad ysgol Gymraeg newydd Borras (Ysgol Llan-y-pwll) ym mis Medi 2022. Mae bwriad i agor Cylch newydd yn Rhiwabon o ganlyniad i gynnydd yn nifer y plant sy'n cael addysg Gymraeg yn Ysgol Min y Ddol, Cefn Mawr ac Ysgol I D Hooson yn Rhosllanerchrugog. Bydd adeilad newydd yn cael ei ddarparu drwy'r grant cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhan o gynllun SAS Mudiad Meithrin gyda buddsoddiad ariannol yn y ddarpariaeth. Bydd adeilad newydd ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn Ysgol I D Hooson yn cwmpasu Cylch Maes y Gornel a gofal cofleidiol I D Hooson.

Bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd gyda Mudiad Meithrin i gefnogi sefydliad darpariaeth gofleidiol a gofal ar ôl ysgol o fewn Ysgol newydd Llan-y-pwll. Disgwylir bydd y cyfleuster yn cynhyrchu 30 lle newydd fesul gwasanaeth. Yn ychwanegol at y datblygiad hwn, mae cynlluniau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhiwabon. Bydd y cyfleuster hwn yn bwydo i mewn i'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol I D Hooson, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer ei ehangu. Disgwylir y bydd y datblygiad hwn yn cynhyrchu 30 lle gofal plant ychwanegol.

Ynghyd â'r datblygiadau newydd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, rydym yn gweithio gyda lleoliadau gofal plant er mwyn ystyried ymestyn y ddarpariaeth gyfredol i ofal yn ystod y gwyliau.

Byddwn yn sicrhau bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn cael y wybodaeth gywir a chyfredol am y ddarpariaeth gan ddefnyddio gwefan Dewis Cymru.

Byddwn yn cydweithio â theuluoedd amlieithog ac yn cadarnhau'r wybodaeth berthnasol am addysg cyfrwng Cymraeg yn eu iaith eu hunain.

### Croesi'r Bont

Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn gyda'r nod o ychwanegu Cylch Borras, Cylch Antur a Chylch Meithrin Bryn Tabor. a'r Cylch newydd yn Rhiwabon at y 7 sydd eisoes yn derbyn y ddarpariaeth.

Mae Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd gan Dîm Ofal Plant y Cyngor. Fel rhan o'n cynllun, byddwn yn gweithio i gadarnhau statws darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn Wrecsam.

Bydd y Tîm Gofal Plant yn sefydlu gweithgor i adolygu statws y gweithlu gofal plant o fewn Wrecsam ac Awdurdodau Lleol cyfagos. Bydd y Rheolwr Tîm Cynorthwyol yn gweithio ar y cyd gydag Arweinwyr Gofal Plant yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych, arweinwyr Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg, Arweinydd Tîm Chwarae a chynrychiolwyr o CWLWM, Coleg Cambria a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddarparu camau gweithredu gefnogi datblygiad y gweithlu gofal plant yn effeithiol. Amcan o'r grŵp hwn fydd nodi dulliau i gefnogi recriwtio staff sy'n siaradwyr Cymraeg, a hyrwyddo darpariaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg fel dewis gyrfa.

### Lle ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

- Mae ein Data Asesu Gofal Plant wedi cael ei ddefnyddio'n strategol i ddynodi'r ddarpariaeth iaith Gymraeg sydd ar gael, ac i gynllunio ar gyfer ehangu yn y dyfodol.
- Bydd partneriaeth sefydledig a pharhaus rhwng ein hysgolion uwchradd, darparwyr Addysg Bellach a Chynlluniau Prentisiaethau Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau gweithlu cynaliadwy a medrus ar gyfer y dyfodol. Drwy ein strategaeth hyrwyddo ehangach byddwn wedi annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn gofal plant.
- Byddwn yn cynnal ein lefelau trosglwyddo a chynnydd cryf rhwng Cylchoedd Meithrin ac ysgolion cyfrwng Cymraeg gan anelu at gynyddu nifer y lleoliadau sydd â chyfradd drosglwyddo o 100% i'r holl leoliadau erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd. Bydd gan yr holl gylchoedd newydd gyfradd drosglwyddo o 100%.

Bydd ein cydweithio cadarnhaol parhaus gyda Dechrau'n Deg wedi arwain at gynnydd mewn llefydd ac ymestyniad daearyddol ehangach ledled y fwrdeistref sirol yn unol â'r cynllun ehangu. Gyda chefnogaeth ein partneriaid byddwn yn darparu rhaglenni hyfforddi i gefnogi ein gweithlu i ddysgu Cymraeg, i wella eu sgiliau Cymraeg ac i fod â gwell dealltwriaeth o addysgeg trochi i ddysgu iaith.

Mae ein targedau ar gyfer y 10 mlynedd sydd i ddod yn seiliedig ar ganran o'r garfan, ac fe ragwelir y bydd yn gostwng dros y cyfnod amser hwnnw.

### Canran y disgyblion Meithrin sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

| Blwyddyn | Canran Targed Is % | Canran Targed Uwch % |
|---|---|---|
| 2021/2022 | 15.2 | 15.6 |
| 2022/2023 | 16.0 | 16.8 |
| 2023/2024 | 16.9 | 18.1 |
| 2024/2025 | 17.8 | 19.4 |
| 2025/2026 | 18.7 | 20.7 |
| 2026/2027 | 19.5 | 21.9 |
| 2027/2028 | 20.4 | 23.2 |
| 2028/2029 | 21.3 | 24.5 |
| 2029/2030 | 22.1 | 25.7 |
| 2030/2031 | 23.0 | 27.0 |

## Deilliant 2: Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni arni rŵan?

Mae Wrecsam eisoes wedi bod yn rhagweithiol iawn o ran cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sir, felly o 2022 bydd y bwlch fel a ganlyn:

### Bwlch presennol o'r gwaelodlin o 297 (2022)

| Targed | Bwlch (nifer y llefydd) | Bwlch (Nifer y dosbarthiadau) | Canran cynnydd o'r gwaelodlin % |
|---|---|---|---|
| Is (360) | 63 | 2 | 21.21% |
| Uwch (425) | 128 | 4 | 43.10% |

Rydym ar hyn o bryd yn gweithredu gyda darpariaeth dros ben.

Capasiti presennol 1,869 lle

Nifer Derbyn Blynyddol Presennol 267

Capasiti o 14.65%

### Nifer y llefydd dros ben ym mhob grŵp oedran ar hyn o bryd – 460 (24.61%)

| Grwp Blwyddyn | Cyfanswm | Cyfanswm Canran % |
|---|---|---|
| Derbyn | 85 | 31.84 |
| Blwyddyn 1 | 59 | 22.10 |
| Blwyddyn 2 | 53 | 19.85 |
| Blwyddyn 3 | 45 | 16.85 |
| Blwyddyn 4 | 79 | 29.59 |
| Blwyddyn 5 | 58 | 21.72 |
| Blwyddyn 6 | 81 | 30.34 |
| Cyfanswm | 460 | 24.61 |

## Opsiynau i gynyddu capasiti ymhellach

### Cynyddu capasiti yn y safleoedd presennol

Byddai hyn yn gofyn am gynigion yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion ac ymrwymiad cyllid allanol.

Dim ond dau o'r safleoedd y byddai modd eu hehangu'n ffisegol yn seiliedig ar faint o dir sydd ar gael yno. Byddai modd i'r safleoedd dderbyn 15 disgybl ychwanegol yr un.

Pe baem yn mynd ar ôl yr opsiwn hwn byddai gennym 30 lle arall tuag at y targed.

Ar ôl Opsiwn 1: 327, 17.23%

| Bwlch a fyddai'n weddill | Nifer y dysgwyr | Nifer y dosbarthiadau |
|---|---|---|
| Pegwn is | 33 | 1 |
| Pegwn uwch | 98 | 3 |

### Adeiladu Darpariaeth Ychwanegol

Byddai hyn yn gofyn am brynu tir, ymgynghoriad ar drefniadaeth ysgolion a chyllid.

### Newid cyfrwng ysgolion cyfrwng Saesneg

Byddai hyn yn gofyn am ymgynghoriadau am drefniadaeth ysgolion, a gostyngiad yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardaloedd hynny.

Yn dilyn ein cynnig llwyddiannus blaenorol ar gyfer cyllid dan Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar gyfer estyniad i ddwy ystafell ddosbarth yn Ysgol I.D Hooson i ddisodli cabanau presennol, mae'r Cyngor wedi adolygu ei ragamcaniadau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan hon y fwrdeistref sirol, ac wedi ceisio cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer estyniad saith ystafell ddosbarth i'r ysgol. Byddai hyn yn creu 105 lle cyfrwng Cymraeg cynradd pellach, a byddai Ysgol I. D Hooson yn dod yn Ysgol i 420 o ddisgyblion. Byddai hyn yn darparu hwb sylweddol tuag at gyflawni ein targed CSCA ar gyfer 2031 fel y nodwyd yn Newis 1, uchod.

### Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?

O fis Medi 2022 byddwn yn cynyddu nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam, gan ychwanegu darpariaeth newydd ar yr hen safle babanod yn Borras. Bydd hyn yn cynyddu lledaeniad daearyddol ein hysgolion gan wneud addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy-fwy hygyrch, a hefyd sicrhau ein bod yn lleihau ble bynnag bosibl amser teithio i ysgol cyfrwng Cymraeg.

Bydd agor Ysgol Llan-y-pwll yn 2022 yn arwain at newid yn y bylchau, fel a ganlyn:

- Y targed is yw 360 sydd ar hyn o bryd yn rhoi bwlch o 63 yn y ddarpariaeth.
- Y targed uwch yw 425 sydd ar hyn o bryd yn rhoi bwlch o 128 yn y ddarpariaeth.

Yn amodol ar gadarnhau cyllid a'r broses ymgynghori statudol, bydd yr estyniad arfaethedig yn Ysgol I.D. Hooson yn arwain at newid yn y bylchau fel a ganlyn:

- Y targed is yw 360 a fyddai'n rhoi bwlch o 48 yn y ddarpariaeth.
- Y targed uwch yw 425 a fyddai'n rhoi bwlch o 113.

Yn ystod y cyfnod hwn bydd y pwyslais ar lenwi'r llefydd sydd gennym yn barod yn y system a'r rhai a fydd yn cael eu creu yn Ysgol Llan-y-pwll. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Cynnal is-grŵp Fforwm Cymraeg mewn Addysg, a sefydlwyd i ganolbwyntio ar hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y grŵp hwn o bartneriaid strategol allweddol yn cael y dasg o ddatblygu a rheoli gweithrediad strategaeth hyrwyddo;
- Bydd yr is-grŵp yn canolbwyntio'n benodol ar ardaloedd daearyddol dros amser, gan ddechrau gyda'r ardal o amgylch Ysgol Llan-y-pwll, ac yna symud ymlaen i sicrhau bod ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill sydd wedi'u sefydlu'n llawn yn y lle cyntaf, cyn targedu ardaloedd newydd.
- Byddwn yn cyflwyno ein model darparu newydd i gefnogi hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Yn amodol ar gyllid gan LlC, bydd hwn yn fodel cynaliadwy a all wasanaethu'r niferoedd cynyddol yr ydym wedi eu gweld yn y blynyddoedd diwethaf yng Nghyfnod Allweddol 2 ynghyd â chefnogi ymgyrch i gynyddu niferoedd yn narpariaeth Trochi CA3. Mae ein model newydd yn bwriadu sefydlu dull cyfnod croesi mwy cydlynol sy'n seiliedig ar rannu arbenigedd staff, adnoddau, strategaethau ac arferion da rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i ddisodli'r ddau fodel unigol sydd gennym ar hyn bryd. Bydd hyn yn seiliedig ar waith ymchwil sydd wedi cael ei gynnal o'r modelau gwahanol a ddefnyddiwyd mewn ALl ledled Cymru;
- Bydd canolfan iaith newydd yn cael ei sefydlu, wedi'i lleoli i ddechrau yn Ysgol Llan-y-pwll a fydd yn gweithredu fel canolfan drochi ar gyfer disgyblion blwyddyn 6/7 ar sail rhan amser. Bydd yn darparu safle ar gyfer ein tîm Allgymorth hwyrfyddodiaid Cymraeg lle gellir cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg ar strategaethau ac adnoddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Bydd darpariaeth lloeren yn cael ei darparu yn Ysgol Min y Ddôl gan sicrhau darpariaeth ar draws ardal ddaearyddol ehangach. Derbyniwyd cefnogaeth yn rownd gychwynnol cyllid LlC i sefydlu a darparu adnoddau ar gyfer y ddwy ganolfan i gefnogi hwyrddyfodiad ym mis Tachwedd 2021.
- Bydd ein gwefan newydd www.agw.cymru yn fyw yn ystod yr haf 2022 ac yn gweithredu fel stop un siop ar gyfer materion sy'n ymwneud â darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Gweler Deilliant 1, uchod.

## Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

Ar ôl bod yn llwyddiannus mewn creu'r galw yn ystod y 5 mlynedd gyntaf byddwn yn symud ymlaen i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach. Ni ellir darparu rhagor o fanylion o ran cynyddu capasiti mewn safleoedd presennol, adeiladu capasiti ychwanegol na newid categorïau ysgolion cyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd gan y byddai gwneud hynny'n mynd yn groes i God Trefniadaeth Ysgolion LlC. Ond rydym wedi ymrwymo i archwilio'r holl ddewisiadau sydd ar gael er mwyn cyflawni'r targedau a nodwyd isod.

## Canran disgyblion Blwyddyn 1 sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

| Blwyddyn | Canran Targed Pegwn Is % | Canran Targed Pegwn Uwch % |
|---|---|---|
| 2021/2022 | 15.2 | 15.6 |
| 2022/2023 | 16.0 | 16.8 |
| 2023/2024 | 16.9 | 18.1 |
| 2024/2025 | 17.8 | 19.4 |
| 2025/2026 | 18.7 | 20.7 |
| 2026/2027 | 19.5 | 21.9 |
| 2027/2028 | 20.4 | 23.2 |
| 2028/2029 | 21.3 | 24.5 |
| 2029/2030 | 22.1 | 25.7 |
| 2030/2031 | 23.0 | 27.0 |

Bydd y manylion yn destun proses ymgynghori statudol ac yn cael eu cynnwys yn ein cynlluniau gweithredu a fydd o dan y ddogfen strategol hon a byddwn yn eu monitro fesul tymor drwy Fforwm Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ac yn flynyddol drwy adroddiadau cynnydd i LlC.

Byddwn yn cynnal is-grŵp Cymraeg mewn Addysg i ganolbwyntio ar y deilliant hwn. Bydd y grŵp hwn o bartneriaid allweddol yn cael y dasg o ddatblygu'r ffrwd waith hon yn ystod 5 mlynedd gyntaf y cynllun hwn, er mwyn ei gyflwyno ar ôl 2027.

Er enghraifft er mwyn creu 63 o lefydd ychwanegol, byddai angen i ni greu ychydig dros 2 ddosbarth ychwanegol ar y pwynt mynediad neu ddwy ysgol 210 lle ychwanegol. Er mwyn creu 128 o lefydd ychwanegol, byddai angen i ni greu 4 dosbarth ychwanegol ar y pwynt mynediad neu bedair ysgol 210 lle ychwanegol.

Byddem yn ceisio darparu'r llefydd ychwanegol drwy:

- Ymgynghori er mwyn cynyddu darpariaeth yn y safleoedd presennol lle bo hynny'n ymarferol.
- Creu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn y Sir, naill ai mewn adeiladau newydd neu adeiladau a addaswyd i'r pwrpas, neu gyfnewid safle (yn amodol ar y galw am addysg yn yr ardal benodol).
- Ymgynghori ynghylch newid dynodiad iaith ysgolion sydd ar hyn o bryd yn ysgolion cyfrwng Saesneg yn unig i ddynodiad ysgolion dwy ffrwd, neu ysgolion Cymraeg.

Bydd yr is-grŵp hyrwyddo yn canolbwyntio ar y prif her sef dewis a gallu rhieni ac argaeledd y gweithlu.

| | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran Targed Pegwn Uwch % | 14.3 | 15.6 | 16.8 | 18.1 | 19.4 | 20.7 | 21.9 | 23.2 | 24.5 | 25.7 | 27.0 |
| Canran Targed Pegwn Is % | 14.3 | 15.2 | 16.0 | 16.9 | 17.8 | 18.7 | 19.5 | 20.4 | 21.3 | 22.1 | 23.0 |

Mae'r grid uchod yn dangos y cerrig milltir ar ein siwrnai tuag at ein targed. Mae ein gwaelodlin wedi'i sefydlu ar y data CYBLD sydd ar gael i ni (2021) yn hytrach na'r capasiti cyfredol yn nhermau lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn defnyddio hyn i gofnodi ein cynnydd drwy gydol oes y CSCA.

Yn hir dymor byddwn yn adolygu ein cytundeb gyda datblygwyr o ran taliadau Adran 106. Byddwn yn ystyried ymagwedd ar draws y sir gyfan i sicrhau bod canran o'r ardoll yn cael ei neilltuo ar gyfer ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol.

## Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall

### Ble rydym ni arni rŵan?

Drwy gydol y CSCA presennol rydym wedi parhau i gefnogi gwaith Mudiad Meithrin drwy ariannu swydd i gynnal llwybr clir ar gyfer rhieni o'r sesiynau Cymraeg i Blant drwodd i Gylch Meithrin ac ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae ein cyfraddau trosglwyddo wedi parhau'n gryf iawn gyda 100% yn trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg o'r rhan fwyaf o leoliadau (12 o 15).

Caiff yr holl ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg fel iaith gyntaf.

Mae'r clwstwr cyfrwng Cymraeg o ysgolion cynradd ac Ysgol Morgan Llwyd wedi bod yn bartneriaeth gydweithredol gryf dros flynyddoedd lawer ac mae gweithgareddau fel cyrsiau Glan Llyn, Eisteddfodau'r Urdd, dyddiau chwaraeon ac ati i gyd yn cyfrannu at drefniadau pontio cadarnhaol. Ar y cyfan unwaith y mae rhieni wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg mae'r niferoedd sy'n aros ymlaen yn y sector hyd 16/18 oed yn uchel iawn yn Wrecsam. Serch hynny, rydym yn cydnabod nad oes lle i fod yn hunanfodlon a byddwn yn parhau i weithio ar y cyd gyda'n hysgolion i gynnal a gwella'r safle hwn. Bu twf arwyddocaol yn nifer y dysgwyr sy'n dod i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam dros y blynyddoedd diweddar ac mae'r gyfradd trosglwyddo o ysgolion cyfrwng Cymraeg i Ysgol Morgan Llwyd yn uchel o hyd. Dros y pum mlynedd diwethaf, y gyfradd drosglwyddo ar gyfartaledd o Flwyddyn 6 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i Flwyddyn 7 yn Ysgol Morgan Llwyd oedd 91.49%. Mae angen ystyried hyn yn y cyd-destun ehangach o ran carfan mwy o faint h.y. yn 2019 trosglwyddodd 155 o ddisgyblion o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i flwyddyn 7 yn Ysgol Morgan Llwyd, lle bo'r ffigwr ar gyfer 2022 yn 188.

Mae manteision parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg wedi'u hyrwyddo'n dda yn yr ysgolion cynradd, fodd bynnag mae tuedd wedi dod i'r amlwg dros y ddwy flynedd ddiwethaf o gynnydd bychan yn y niferoedd sy'n symud allan o addysg Gymraeg. Nid yw hon yn sefyllfa yr ydym wedi'i hwynebu yn Wrecsam yn y gorffennol ac mae gwaith ar y gweill i adnabod y rhesymau y tu ôl i hyn a mynd i'r afael â nhw. Mae ymchwil cychwynnol wedi nodi bod gan rieni bryderon o ran cefnogi eu plant gyda dysgu yn y cartref yn ystod pandemig covid fel y prif reswm, ynghyd â phryderon o ran parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg os oes gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol. Byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion a'r rhieni – presennol a darpar rieni- i fynd i'r afael â hyn drwy ymrwymo i'r camau gweithredu a amlinellwyd dan Ddeilliant 2, uchod, yn ymwneud â gwaith yr is-grŵp hyrwyddo Fforwm Cymraeg mewn Addysg. Bydd y wefan newydd www.agw.cymru yn amlygu manteision parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg hefyd, a'r dewisiadau ôl 18 sydd ar gael, gan gynnwys cyfleoedd gyrfa. Byddwn yn cydweithio ymhellach gyda Choleg Cambria i ddarparu gwersi Cymraeg i rieni ynghyd â sesiynau ar gyfer rheini disgyblion blwyddyn 5, mewn perthynas â chefnogaeth y rhiant ar gyfer disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i addysg uwchradd.

Rydym yn cydnabod bod y sesiynau hyn, a ddarparwyd yn flaenorol ar gyfer rhieni disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Morgan Llwyd, angen cael eu targedu at rieni cyn y cyfnod pontio, ac nid ar ei ôl.

Mae Ysgol Morgan Llwyd wedi rhedeg rhaglen Trochi am nifer o flynyddoedd sydd wedi galluogi disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg i symud i addysg cyfrwng Cymraeg drwy eu trochi yn yr iaith ym Mlynyddoedd 7 ac 8. Mae'r cynllun wedi'i noddi ar y cyd rhwng yr ysgol a'r ALl ac wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol, ond mae'r niferoedd wedi lleihau'n arwyddocaol dros oes y CSCA presennol er bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn y Canllaw i Rieni'r Cyngor.

| Blwyddyn academaidd | Nifer y myfyrwyr Trochi |
|---|---|
| 2018/19 | 7 |
| 2019/20 | 6 |
| 2020/21 | 4 |
| 2021/22 | 3 |

Gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a ddyfarnwyd ym mis Tachwedd 2021, bu'n bosibl adolygu fformat y rhaglen Trochi ac edrych i ALl eraill ledled Cymru am fodel gwahanol. Mae arwyddion cadarnhaol o ran gwrthdroi'r duedd hon eisoes gyda 12 o ddisgyblion wedi cofrestru ar gyfer Trochi ym Mlwyddyn 7 ar gyfer mis Medi 2023- sy'n sylweddol uwch na'r blynyddoedd diweddar.

O ganlyniad, ac yn amodol ar gefnogaeth ariannol barhaus LIC, bydd model cefnogi trochi dros gyfnodau mwy cydlynol yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2022. Byddwn yn sefydlu 'Tîm Trochi.' O dan y model newydd bydd Rheolwr y Tîm Trochi yn cael ei benodi i arwain y ffrwd waith. Rhan allweddol o rôl y rheolwr fydd cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn darpariaeth trochi hwyr ar draws y cyfnodau, ynghyd â chysylltu â rhieni a sicrhau bod cefnogaeth a gwybodaeth ar gael iddynt i barhau i ymgysylltu ag addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Coleg Cambria'n nodi, ar y cam cofrestru, pob dysgwr (o Wrecsam a thu hwnt) sydd wedi cwblhau eu haddysg cyn 16 drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar safle Wrecsam, mae'r dysgwyr hyn yn cael eu lleoli o fewn yr un grŵp cofrestru gyda thiwtor personol sy'n siaradwr Cymraeg. Ar gyfer y sawl sy'n dilyn cyrsiau Lefel A, mae ganddynt fynediad i adnoddau Cymraeg, ac yn gallu sefyll eu harholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'r addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Mae rhai cyrsiau galwedigaethol yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i feysydd sy'n cael eu nodi gan gyflogwyr lleol fel bod â diffyg siaradwyr Cymraeg, y Gwasanaethau Cyhoeddus, Gofal Plant a Gofal Cymdeithasol yn bennaf. Ar y cyrsiau hyn, mae pob myfyriwr yn cael sesiynau Cymraeg wythnosol fel rhan o'u hamserlen.

## Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn gweithio gyda Mudiad Meithrin, ein hysgolion, Coleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr i fapio'r siwrnai addysg cyfrwng Cymraeg gyflawn. Byddwn yn sicrhau bod rhieni a myfyrwyr yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol am yr ystod eang o gefnogaeth sydd ar gael ar bob cam a sut i gael at y wybodaeth honno. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon mor eang â phosibl drwy amrywiaeth o sianelau cyfathrebu, gan gynnwys ein staff ein hunain, er mwyn iddynt allu rhoi arweiniad a chyngor yn ôl yr angen.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwaith y Mudiad Meithrin wrth iddynt gefnogi rhieni drwy gynnal sesiynau ar gyfer darpar rieni a rhieni newydd ar dylino babanod, yoga babanod a sesiynau stori, arwyddo a chanu. Yn ychwanegol, bydd eu Swyddog yn mynychu sesiynau cyn ac ar ôl geni i rannu gwybodaeth am fanteision cyflwyno'r iaith Gymraeg a rhannu gwybodaeth am ofal plant ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy weithio gydag Ymwelwyr Iechyd a Bydwragedd yn y sir.

Byddwn y cwblhau ein hadolygiad o'r ddarpariaeth Trochi bresennol yn Ysgol Morgan Llwyd a gweithredu'r model newydd o 2022 ymlaen. Byddwn yn datblygu'r ffordd y caiff y rhaglen trochi ei hyrwyddo gan gynnwys ar ein gwefan newydd. Dros gyfnod y CSCA byddwn yn ceisio cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn darpariaeth Trochi ym Mlwyddyn 7 i gyrraedd 16 erbyn 2026.

Byddwn yn trefnu ymweliadau ag ysgolion cynradd gan athrawon Cymraeg a llysgenhadon disgyblion ac yn manteisio ar bob cyfle i ddathlu llwyddiant Trochi yn y wasg leol ac annog mwy o ddiddordeb.

Gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin i hyrwyddo'r holl negeseuon am ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar i gynulleidfa ehangach drwy fod yn gynhwysol a sicrhau bod y negeseuon a rennir y addas ar gyfer pawb o unrhyw gymuned drwy ddilyn canllawiau Llais yr Iaith.

Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol ac mewn ffordd wedi'i theilwra gyda rhieni a dysgwyr sy'n nodi nad ydynt yn dymuno aros mewn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Byddwn yn gweithio i adnabod yn gynt y rhai hynny sy'n ansicr ac yn rhoi cefnogaeth ac anogaeth fel sy'n briodol. Bydd Rheolwr y Tîm Trochi'n arwain ar y gwaith ar ein rhan ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol i gefnogi teuluoedd.

Er y cyfraddau trosglwyddo cadarnhaol o'n hysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i Ysgol Morgan Llwyd, mae nifer bach o ddysgwyr sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd eraill o hyd – un ai i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwy ffrwd mewn awdurdodau cyfagos, neu i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn Wrecsam. Gyda'r rhwydwaith rhanbarthol Cymraeg, byddwn yn gweithio gyda swyddogion GwE i sicrhau bod cynnydd y grŵp bach hwn o ddysgwyr yn cael ei gefnogi, ei olrhain a'i fonitro yng nghyd-destun eu caffaeliad blaenorol o'r Gymraeg. Dros gyfnod y CSCA byddwn yn ceisio gwella cyfraddau trosglwyddo o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 gan anelu am gyfradd o 95% o fewn y 5 mlynedd cyntaf a 97%+ erbyn diwedd y Cynllun.

Mae capasiti Ysgol Morgan Llwyd wedi cynyddu'n ddiweddar o 240 o leoedd, sy'n golygu fod ganddynt le gwag o ychydig llai na 23% ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol ac, yn amodol ar ymgynghoriad, yn ystyried cynyddu'r niferoedd derbyn.

Byddwn yn datblygu ein cydweithrediad gyda Choleg Cambria ymhellach i gefnogi cynnydd y dysgwr ar draws pob cyfnod.

### Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

Bydd rhieni a myfyrwyr yn Wrecsam yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwybodus am argaeledd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant o adeg eu geni drwodd i'r brifysgol. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon i gael mynediad at gefnogaeth a fydd yn cadw eu plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd bydd gennym bron i 100% niferoedd cadw neu ddysgwyr sy'n aros mewn addysg cyfrwng Cymraeg wrth iddynt symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg.

Byddwn wedi sefydlu partneriaethau effeithiol a sefydledig i hyrwyddo a sicrhau pontio didrafferth o ysgolion cynradd i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd a thrwy hynny yn gwella cynnydd ieithyddol. Drwy ein strategaeth gyfathrebu a hyrwyddo well bydd gennym ddealltwriaeth ddyfnach o'r rhesymau y tu ôl i'r dewisiadau y mae rhieni a darpar rieni'n eu gwneud ac yn gallu eu cefnogi'n fwy effeithiol i barhau i ymgysylltu â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar bob cam. Os daw unrhyw batrymau i'r amlwg o ran ardaloedd daearyddol byddwn wedi gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â hyn.

Bydd y niferoedd sy'n derbyn mynediad i'n darpariaeth Trochi Bl.7 yn dangos cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni arni rŵan?

Yn Ysgol Morgan Llwyd mae pob disgybl yn astudio pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â Chymraeg fel pwnc. Mae pob disgybl yn yr ysgol yn sefyll arholiad TGAU Cymraeg fel iaith gyntaf ac mae'r canlyniadau cyffredinol wedi parhau i fod yn dda. Caiff pob dysgwyr Blwyddyn 11 eu hymgofrestru ar gyfer o leiaf 5 cymhwyster lefel 1 neu lefel 2 arall hefyd drwy gyfrwng y Gymraeg gyda mwyafrif y disgyblion yn llwyddo i ennill pum neu fwy o gymwysterau Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cymwysterau galwedigaethol BTEC ac Agored Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnig cyfanswm o 30 o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA4.

Er mwyn codi safonau Cymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn darparu rhaglen gydlynol o gyfleoedd datblygu proffesiynol i staff mewn ysgolion. Mae'r tîm yn darparu ystod o raglenni hyfforddi gwahanol ar gyfer staff y Cyfnod Sylfaen a CA2 ar bob lefel.

Mae'r tîm yn darparu canllawiau a chefnogaeth i ysgolion hefyd, er mwyn cyflawni dyfarniadau Cymraeg Campus.

Mae natur y ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig gan y tîm yn cael ei ddylanwadu gan ddata gallu Cymraeg Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY), trafodaethau gyda Phenaethiaid ac arweinwyr pwnc ar gyfer Cymraeg, yn ogystal ag adborth o'r ffurflenni gwerthuso ar ôl cwblhau hyfforddiant.

I sicrhau bod anghenion ysgolion yn cael eu diwallu, mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg hefyd yn darparu hyfforddiant mewnol ar gyfer ysgolion a chlystyrau unigol.

Fel rhan o'r sesiynau hyfforddi, mae cynrychiolwyr yn cael pecyn adnoddau a/neu gyflwyniad PowerPoint sy'n ei galluogi i ddarparu'r cwricwlwm yn effeithiol, ac, os oes angen, darparu hyfforddiant mewnol.

Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr i ymarfer a datblygu eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau'r Jambori, a dysgwyr CA2 yn mwynhau ymweliadau preswyl i ganolfan yr Urdd yng Nglan-llyn.

Mae pob disgybl mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn astudio Cymraeg fel pwnc ac yn cael eu hasesu ar ddiwedd CA3.

Hyd yr haf 2019 roedd taflwybr o welliant yn nifer y dysgwyr CA4 mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg a ymgofrestrwyd ar gyfer y cymhwyster TGAU Cymraeg ail iaith (yn 2016 roedd 87.1% o'r holl ddysgwyr yn cael eu hymgofrestru ar gyfer UNRHYW un o'r 4 cymhwyster posibl; erbyn 2019 roedd 89.2% o ddysgwyr yn cael eu hymgofrestru ar gyfer y cwrs TGAU LLAWN yn unig).

Hyd yr haf 2019 roedd taflwybr o welliant yn nifer y dysgwyr CA5 a ymgofrestrwyd ar gyfer Lefel A ail iaith (% a ymgofrestrwyd ar gyfer y pwnc o gymharu â'r nifer a ymgofrestrwyd ar gyfer cymhwyster TGAU Cymraeg ail iaith ym Mlwyddyn 11 yn y ddwy flwyddyn flaenorol: 2017 1.3%; erbyn 2019 2.5%).

Mae'r niferoedd sy'n dewis astudio Cymraeg iaith gyntaf ar gyfer Lefel A yn Ysgol Morgan Llwyd yn isel, ond yn sefydlog oddeutu 3-4 fesul carfan. Mae hyn yn debyg i'r nifer sy'n dewis astudio Saesneg fel pwnc yn chweched dosbarth yr ysgol. Mae Coleg Cambria yn cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith ac mae The Maelor School, Penley yn cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio'r Gymraeg fel ail iaith, ar gyfer UG a Lefel A.

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn cynnig 24 o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu chweched dosbarth er y gall hyn amrywio yn dibynnu ar y garfan.

Yn ystod oes y CSCA presennol rydym wedi datblygu dwy fenter lwyddiannus a'n bwriad yw y bydd y mentrau hyn yn parhau ac yn cael eu hehangu yn ystod y cyfnod i ddod.

Y fenter gyntaf oedd i godi ymwybyddiaeth yn ysgolion cynradd Wrecsam o fanteision bod y ddwyieithog yn y byd gwaith a'r manteision i'r economi. Bu'n rhaid gohirio'r cynlluniau ar gyfer 2020 oherwydd y pandemig, ond yn ystod y prosiect gwreiddiol targedwyd ardaloedd Rhos, Rhiwabon, y Waun, Dyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Ceiriog. Cymerodd dros 20 o gyflogwyr ran yn y prosiect gan ymgysylltu â dros 330 o ddisgyblion Bl 6 mewn 17 o ysgolion cyfrwng Cymraeg, Saesneg a dwy ffrwd yn yr ardaloedd hynny. Mae hyn yn golygu bod oddeutu 30% o ysgolion cynradd y Fwrdeistref Sirol wedi'u cynnwys yn y cynllun. Mae hyn wedi arwain at gynnig menter debyg drwy Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr Bl.10 yn un o'n hysgolion uwchradd. Mae'r digwyddiad yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr gael gwell dealltwriaeth o'r llwybrau gyrfaol sydd ar gael iddynt lle y gellir defnyddio eu sgiliau Cymraeg ac yn rhan o uned TGAU Cymraeg i ddarparu tystiolaeth i gefnogi ar gyfer cymhwyster 'defnydd o'r Gymraeg' Bagloriaeth Cymru.

Roedd yr ail yn gynllun i wella sgiliau iaith Gymraeg athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mewn partneriaeth â Choleg Cambria. Ar y dechrau roedd y prosiect yn cefnogi 30 o athrawon o 2 ysgol gyda chynlluniau i ehangu hyn ond oherwydd Covid bu'n rhaid gohirio'r fenter a bydd yn awr yn ailgychwyn yn gynnar yn oes y CSCA newydd.

Datblygiad diweddar yw'r cydweithio rhwng yr ysgol a Mudiad Meithrin gyda chymwysterau Gofal Plant lefel 2 a 3 yn cael eu cynnig i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11. Mae hyn yn fanteisiol i'r ddwy ochr oherwydd ei fod yn:

- Cynnig cymhwyster ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion YMLl;
- Galluogi Mudiad Meithrin i ddynodi gweithlu â'r cymwysterau priodol ar gyfer y dyfodol.

Bydd y prosiect hwn yn parhau i gael ei ddatblygu a'i ymestyn ac yn darparu templed ar gyfer cydweithio pellach gyda sefydliadau eraill (e.e. iechyd).

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed hefyd yn bennaf yn Ysgol Morgan Llwyd gyda phartneriaeth wedi'i sefydlu yng Ngholeg Cambria ac ysgol cyfrwng Cymraeg arall mewn awdurdod cyfagos (Ysgol Maes Garmon, Sir y Fflint) i gydweithio ar y ddarpariaeth. Mae Coleg Cambria hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau galwedigaethol dwyieithog mewn meysydd blaenoriaeth dynodedig fel Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Fel y nodwyd eisoes dan bwynt 4 y cyflwyniad uchod, rydym wedi cynyddu capasiti yn Ysgol Morgan Llwyd o 240 o lefydd yn ystod cyfnod y CSCA, drwy greu darpariaeth chweched dosbarth annibynnol o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd angen ymgynghoriad pellach yn y dyfodol i gynyddu'r nifer derbyn yn ffurfiol er mwyn defnyddio'r llefydd a adawyd yn wag gan y chweched dosbarth, gan baratoi'r ffordd i niferoedd cynyddol barhau â'u hastudiaethau ôl 16 drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Coleg Cambria

Mae 85 o fyfyrwyr ôl-16 sy'n cael eu haddysgu yng Ngholeg Cambria sy'n astudio'r rhan fwyaf o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pynciau Galwedigaethol

Yn ystod 21/22 mae'r coleg wedi cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu pynciau yn y meysydd blaenoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog – sef Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus. Eu targed yw bod 100% o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau L2 a 3 ar eu safle yn Wrecsam yn dilyn unedau Cymraeg sy'n berthnasol i'w pwnc. Ar gyfer 22/23 bydd Chwaraeon yn cael ei ychwanegu at y meysydd blaenoriaeth ac yn cael ei osod ar yr un targed. Bydd hyn yn cefnogi Deilliant 5 isod o ran cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr allu cael mynediad at nofio, chwaraeon a gweithgareddau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

Mae'r holl fyfyrwyr yn cael cyfle i ddilyn eu cwrs yn Gymraeg / dwyieithog ac mae targed wedi'i osod gan LlC bod 50% o'r myfyrwyr sydd wedi cyflawni eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg cyn bod yn 16 oed yn parhau i wneud hynny'n ôl-16. Mae hyn yn cynnwys Bagloriaeth Cymru. Mae data'n cael ei gasglu ar berfformiad yn erbyn y targed hwn yn awr. Mae nifer y rhai sy'n cwblhau eu gwaith yn Gymraeg yn dibynnu ar y nifer sydd wedi bod mewn Ysgolion Cymraeg / ffrwd Gymraeg.

Drwy'r rhaglen E–ysgol mae Ysgol Morgan Llwyd wedi gallu cynnig amrywiaeth ehangach o gymwysterau ôl 16 mewn cydweithrediad ag ysgolion eraill drwy blatfform dysgu ar-lein. Tra bo manteision amlwg i hyn, mae yna hefyd rai heriau o ran cynnal ymgysylltiad y myfyrwyr a'r cysylltiad personol rhwng staff a myfyrwyr.

O ran nifer a chanran presennol dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a throsodd sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ac yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg, cafwyd y wybodaeth isod ym mis Ionawr 2021:

| Yn CYBLD 2021 | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 |
|---|---|---|---|
| Nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg | 149 | 55 | 35 |
| Cyfanswm maint y cohort | 1273 | 146 | 100 |
| Canran sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg % | 11.7% | 37.7% | 35.0% |

*ysgolion uwchradd yn unig

** Disgyblion â statws ymrestru C neu M yn unig

### Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda GwE, ein partneriaid gwella ysgolion rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod ansawdd dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn 'dda' o leiaf. Drwy weithio gyda rhwydwaith rhanbarthol y Gymraeg, byddwn yn cynnig hyfforddiant, adnoddau a chefnogaeth i ganiatáu i athrawon fodloni gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Mewn partneriaeth at Ysgol Morgan Llwyd byddwn yn gweithio i gynyddu ymhellach y niferoedd sy'n astudio Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf ac yn ennill y graddau uchaf yn y pwnc, gan geisio dyblu nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio Cymraeg o fewn y cynllun 10 mlynedd. Byddwn yn cyfathrebu â darpar fyfyrwyr â'u gofalwyr i leddfu unrhyw bryderon ynghylch pa mor heriol yw'r pwnc ai'i ddefnyddioldeb fel pwnc Lefel A.

Byddwn yn gweithio ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Gyrfa Cymru i drefnu cyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol o wahanol ddiwydiannau i ddangos gwerth cymhwyster yn y Gymraeg a chymwysterau a enillwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn y byd gwaith. Byddwn yn ategu at lwyddiant cyflwyno ein gwaith partneriaeth gyda Gyrfa Cymru i ehangu digwyddiadau'r Gymraeg yn y gweithle ar draws ein holl ysgolion uwchradd yn flynyddol a cheisio cyflawni hyn erbyn 2027.

Byddwn y lobio ac yn cefnogi ymdrechion cenedlaethol i gynyddu nifer y cymwysterau sydd ar gael, academaidd a galwedigaethol fel ei gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o'n hadolygiad o ddarpariaeth Llwybrau Dysgu 14 -19 byddwn yn ymdrechu, ar y cyd â'n partneriaid i barhau i ddarparu amrediad llawn o gyrsiau addas yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn partneriaeth â GwE byddwn yn ehangu ein cydweithrediad ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, i rannu a dysgu o'r arfer gorau sydd ar gael.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r holl hyfforddiant a chefnogaeth sydd ar gael i athrawon wella a datblygu ymhellach eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn eu symud ymhellach ar hyd y continwwm iaith. (Gweler Deilliant 7 hefyd).

### Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

Yr isod yw ein rhagamcanion ar gyfer Blwyddyn 10 a throsodd yn 2031 ac maent yn seiliedig ar ein cyfradd drosglwyddo 5 mlynedd gyfartalog o 91.49% o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i Ysgol Morgan Llwyd.

Yn Ionawr 2031;

| | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 |
|---|---|---|---|
| Nifer y disgyblion yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg | 164 | 73 | 62 |
| Cyfanswm maint y cohort | 1219 | 137 | 128 |
| Canran sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg % | 13.5% | 53.3% | 48.4% |

* Ysgolion Uwchradd yn unig

* Disgyblion â statws ymrestru C neu M yn unig

Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yng Nghanlyniad 3 uchod, byddwn yn sefydlu strategaethau targedig i gynyddu'r gyfradd drosglwyddo ganrannol hon ymhellach dros y blynyddoedd i ddod, felly'r targed yr ydym yn anelu ato o ran nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2031, yn seiliedig ar nifer y disgyblion mwn addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 1 ym mis Ionawr 2021 (gw. 10 uchod) fydd 208.

10 mlynedd o gyflwyniad Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, byddwn yn gweld gwelliant yn safon y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd staff ein hysgolion, athrawon a chymorthyddion addysgu'n ymgysylltu'n gadarnhaol gyda bwydlen ehangach o hyfforddiant, bydd eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd wedi cynyddu, gan arwain at ymestyniad i ddarpariaeth y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

## Deilliant 5: Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol

### Ble rydym ni arni rŵan?

Mae strategaeth 5 mlynedd Wrecsam yn datgan:

> Mae'r Cyngor yn ymwybodol mai un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol o gyflawni ei amcan o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yw parhau i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg a rhoi i'r plant hynny sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg y gefnogaeth a'r anogaeth angenrheidiol i ffynnu gan normaleiddio'r defnydd o Gymraeg.
>
> Cydnabyddir nad yw nifer fawr o blant a phobl ifanc sy'n siarad a dysgu Cymraeg yn cael llawer o gyfleoedd i siarad yr iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, arferol. Mae'n hollbwysig bod y Cyngor yn cyflwyno cyfleoedd i blant a phobl ifanc siarad Cymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol a'i bod yn dod yn iaith arferol yn eu bywydau bob dydd.
>
> Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid yn lleol i symud ymlaen â'i agenda iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys bod yn aelod o Fforwm Iaith Fflint a Wrecsam a gweithio'n strategol gydag amrywiaeth o sefydliadau eraill a chyrff cyhoeddus megis Menter Iaith Fflint a Wrecsam, Coleg Cambria, Urdd Gobaith Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i rannu enghreifftiau o arfer gorau, arbenigedd ac adnoddau.
>
> Wrth benderfynu ar amcanion ei strategaeth ei hun, mae'r Cyngor wedi dewis mabwysiadu'r amcanion a amlinellir yn strategaeth Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol ag amcanion cenedlaethol.

Rydym wedi ymrwymo i gymell, annog ac ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau waeth beth yw categori'r ysgol y maent yn ei mynychu nac ar ba gam o'u haddysg y maen nhw. Rydym yn gweithio'n agos â'n partneriaid ar y Fforwm a gyda GwE, ein gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, i ddatblygu a hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd ac i rannu arfer da.

#### Cymraeg Campus

Yn yr un modd mae pob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg wedi sefydlu cynlluniau i ddarparu Cymraeg Campus (Siarter iaith). Mae 100% o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg Wrecsam bellach wedi ymrwymo i'r prosiect. Mae Cymraeg Campus wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y Gymraeg mewn ysgolion, gan annog disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg yn amlach mewn sefyllfaoedd pwrpasol tu allan i'r ystafell ddosbarth. O fis Mehefin 2022 mae 20 o ysgolion Wrecsam wedi ennill y Wobr Efydd a 2 wedi derbyn y wobr arian. Roedd sawl un ar fin cael eu dyfarnu pan gafodd y broses ei hoedi o ganlyniad i Covid-19 a'r cyfnod clo.

Mae gweithio gyda phartneriaid ar draws asiantaethau yn lleol yn Wrecsam a thu hwnt yn allweddol i lwyddiant ein strategaeth ac mae eu cyfraniad i Fforwm y Gymraeg yn amhrisiadwy. Cynigir cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol drwy fentrau a digwyddiadau mewn ysgolion unigol a hefyd drwy waith yr Urdd, Menter Iaith a Senedd yr Ifanc. Mae gan rai ysgolion Bencampwr y Gymraeg neu aelod dynodedig o staff sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ond nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael ym mhob ysgol.

Oherwydd y pandemig, ni chynhaliwyd Jambori y Cyfnod Sylfaen a drefnwyd gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg yn 2020. Serch hynny, yn 2021, fe drefnodd y tîm i bob ysgol allu cymryd rhan mewn Jambori ar-lein.

Mae Menter Iaith y Fflint a Wrecsam yn cynnig cyfle i bobl ifanc ymarfer a defnyddio eu Cymraeg mewn gweithgareddau a digwyddiadau megis sesiynau rhieni a phlant bach, Sblash a Chân a Rhigwm a Chân i ymarfer hwiangerddi. Cynhaliwyd digwyddiadau i hyrwyddo apiau iaith mewn ysgolion gyda chymeriadau plant adnabyddus fel Magi Ann a hefyd trefnwyd digwyddiadau allgwricwlaidd megis sesiynau crefft a drama yn ystod y gwyliau ac ar benwythnosau cyn y pandemig.

## Siarter Iaith

Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam wedi ennill y Wobr Aur. Mae'r gwaith o gynnal y Siarter a'r egwyddorion yn cael ei ddatblygu mewn ysgolion er mwyn ymateb i'r Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig. Ers ei lansiad mae ysgolion wedi gwneud gwaith arloesol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol ar draws y gymuned ysgol gyfan. Mae Wrecsam a Sir y Fflint wedi defnyddio'r cyllid a glustnodwyd iddynt drwy GwE i secondio Cydlynwyr Siarter Iaith i arwain ar y gwaith hwn. Mae'r rhai a benodwyd i'r swyddi byrdymor hyn wedi dod a syniadau ffres o'u hysgolion ac wedi eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo gweithgareddau iaith Gymraeg fel Dydd Miwsig Cymru ac ati. Maent hefyd wedi manteisio ar y cydweithio a'r rhannu adnoddau yn rhanbarthol. Bydd secondiad newydd yn dechrau ym mis Medi 2021. Mae natur byrdymor yr arian grant a'r ffaith nad yw parhad y grant yn cael ei gyhoeddi tan y munud olaf wedi achosi problemau yn y gorffennol. Byddwn yn parhau i weithio gyda GwE a LlC i fynd i'r afael â'r mater yn ystod cyfnod y CSCA nesaf.

## Haf o hwyl

Ym mis Awst 2021 roeddem yn gweithio gyda'n cydweithredfa gerdd leol i ddarparu rhaglen 5 diwrnod drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer hyd at 50 o ddysgwyr yn Ysgol I.D.Hooson. Wedi'i ariannu drwy gyllid grant LlC, roedd disgyblion yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn ystod o brofiadau cerddorol sy'n gysylltiedig â gwella iechyd corfforol a meddyliol.

Mae'r data perfformiad diweddaraf a gyhoeddwyd ac adroddiadau arolygu Estyn a gynhaliwyd cyn 2020 yn nodi bod safonau Cymraeg ar draws ysgolion Wrecsam yn gyffredinol dda. Fodd bynnag mae data heb fod yn safonol a thystiolaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd Wrecsam ar hyn o bryd yn amlygu dirywiad yn sgiliau Cymraeg llafar disgyblion yn dilyn cyfnod hir o ddysgu o bell oherwydd y pandemig.

O ganlyniad, gyda chefnogaeth ein Hathrawon Ymgynghorol y Gymraeg, GwE a'r Cydlynydd Allgymorth Hwyrddyfodiaid, mae cynlluniau adfer ar ôl Covid yr ysgolion wedi canolbwyntio'n benodol ar lafaredd. Mae'r gefnogaeth hyd yma wedi cynnwys:

- Llafaredd @ GwE a Siarad i Ysgrifennu
- Mae nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi manteisio ar yr hyfforddiant hwn gyda ffocws penodol ar wella llafaredd. Mae hyn wedi cael yr effaith o wella cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu y ogystal a gwella sgiliau siarad a gwrando ar draws yr ysgol.
- Pecyn Gwaith Haf CA2 a grëwyd ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg.
- Matiau Iaith CA2 newydd i hyrwyddo a datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr.
- Continwwm iaith newydd i ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, a grëwyd ar y cyd rhwng Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a Thimau Ymgynghorol y Gymraeg yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.
- Mae model clwstwr o gefnogaeth hefyd wedi caniatáu i ysgolion rannu adnoddau drwy'r defnydd o Google Classroom.
- Datblygiad banc o adnoddau dysgu cyfunol wedi'u rhannu ar-lein a'u hansawdd wedi'i sicrhau gan GwE, gyda chyfleoedd i weld modelau ysgolion ledled y rhanbarth;
- Amrywiaeth eang o hyfforddiant ar gael yn rhithiol drwy gydol y cyfnod clo.
- Roedd hyn yn caniatáu i staff uwchraddio eu sgiliau i ddatblygu llafaredd yn ymarferol drwy ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu tudalen Facebook i gefnogi rhieni plant sy'n dysgu Cymraeg wrth iddynt gael eu haddysgu o bell yn ystod ac ar ôl y cyfnod clo.

Mae ein hysgolion cyfrwng Cymraeg i gyd wedi targedu'r gronfa adfer ar ôl Covid tuag at ddatblygu sgiliau llafaredd plant gan eu bod yn teimlo mai hyn yr effeithiwyd fwyaf arno yn ystod y cyfnodau pan nad oedd y plant yn yr ysgol. Mae ysgolion wedi cyflogi staff ychwanegol ble bynnag bosibl i roi cefnogaeth benodol i unigolion a grwpiau bach o ddysgwyr.

## Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno

Byddwn yn mapio'r cyfleoedd presennol i blant o oedran ysgol ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg y tu allan i'r dosbarth a'r ysgol drwy weithio mewn partneriaeth â'n gwasanaethau ieuenctid, darparwyr gwasanaethau hamdden a sefydliadau fel yr Urdd, Menter Iaith a Chlwb Pêl-droed Wrecsam. Byddwn yn dyrannu'r gwaith i is-grŵp y Fforwm a fydd yn derbyn y dasg o ddatblygu cynllun gweithredu o dan y ddogfen strategol hon.

Bydd y cynllun yn cynnwys terfynau amser ar gyfer y ffrwd waith ac yn cael ei fonitro bob tymor gan y Fforwm ac yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn sicrhau bod plant, rhieni a theuluoedd, a'n partneriaid allweddol i gyd yn cael mynediad i'r map darpariaeth hwn drwy ein gwefan www.agw.cymru. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth barhaus, yn ogystal â chalendr byw o ddigwyddiadau.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chefnogi gwaith Mudiad Meithrin i hyrwyddo a rhoi cyfleoedd i ddarpar rieni a rheini newydd fynychu sesiynau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i drafod yr hyn sydd ar gael gyda rhieni sy'n mynychu grwpiau Cymraeg i Blant, cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin yn ogystal â nosweithiau agored a nosweithiau rhieni yn yr ysgolion.

Byddwn yn cydweithio'n rhagweithiol gyda'n partneriaid ar y Fforwm i ddarparu rhaglenni ar y cyd yn unol â'u cynlluniau datblygu. Er enghraifft, drwy hyrwyddo gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan Menter Iaith a'r Urdd drwy ein gwefan www.agw.cymru byddwn yn eu cefnogi i gyflawni'r targedau blynyddol a nodwyd yn y cynllun gweithredu a fydd yn eistedd o dan y cynllun strategol hwn.

Byddwn yn sicrhau bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn darparu gwybodaeth ar fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref ac yn cyfeirio unigolion at lenyddiaeth a chyhoeddiadau Cymraeg ac at gwybodaeth am gyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg.

Bydd gweithio gyda'n partneriaid ar y Fforwm, yn gwneud y mwyaf o, ac yn cydweithio ar y defnydd o blatfformau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gweithgareddau a chyfleoedd sydd ar gael yn lleol ac ar draws yr ardal ehangach.

Yn fewnol, byddwn yn gweithio fel Cyngor ar gam nesaf ein Strategaeth Hyrwyddo Pum Mlynedd, gan sicrhau bod aliniad cryfach o ran cydweithio a chanolbwynt rhyngddo a'n CSCA.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chefnogi gweithrediad y Siarter Iaith a Chymraeg Campus. O fewn 5 mlynedd cyntaf y cynllun byddwn yn ceisio cefnogi 36 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i gyflawni'r Wobr Aur a 14 i dderbyn y Wobr Arian. Drwy gryfhau ein perthnasoedd gyda'n partneriaid ar y Fforwm, byddwn yn targedu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddynodi meysydd allweddol drwy ddefnyddio data Siarter Iaith a Chymraeg Campus.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn Hamdden, ein cydweithrediaeth cerddoriaeth, yn ogystal â sefydliadau a chyflogwyr lleol i sicrhau bod pethau fel gwersi nofio, gwersi cerddoriaeth a gweithgareddau eraill ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda Menter Iaith Fflint a Wrecsam i gefnogi ein gilydd i gyflawni ein targedau, bydd manylion hyn yn ein cynllun gweithredu a fydd yn eistedd o dan y cynllun strategol hwn. Mae targed gwaelodlin Menter Iaith, a gytunwyd gyda LlC, ar gyfer Wrecsam yn unig yn cynnwys:

- Trefnu 7 digwyddiad cymdeithasol sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc erbyn 31/3/23;
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol gyda rhieni mewn 3 ysgol cyfrwng Cymraeg, gan gyrraedd 30 o deuluoedd erbyn 31/3/23;
- Parhau i gyflwyno cwis Cymraeg 'Dim Clem' i 2 ysgol arall a 75 o ddisgyblion erbyn 31/3/23, gan ganolbwyntio ar bontio blwyddyn 6;
- Trefnu 7 gweithgaredd erbyn 31/3/23 i hysbysebu a hyrwyddo buddion dwyieithrwydd a chyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg.

Fel rhan o'n ffocws ar ganlyniad 1 uchod, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gofal plant cofleidiol mewn ysgolion, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, sy'n cynnig cyfleoedd i blant ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.

### Lle ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

Bydd gwybodaeth yr ydym wedi'i chasglu o holiaduron ac mewn cydweithrediad â phartneriaid yn cael ei bwydo drwy is-grŵp o'r Fforwm a'i defnyddio i ddatblygu'r gwaith hwn. Byddwn yn ymateb i adborth a dderbynnir drwy ymgynghoriadau a darparu gwybodaeth a mynediad i rieni a theuluoedd i ddysgu Cymraeg gyda'u plant.

## Deilliant 6: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.)

### Ble rydym ni arni rŵan?

Mae Cyngor Bwrdeistref Wrecsam wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau gorau posib i blant, gan gynnwys y sawl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, drwy ein darpariaeth a'n mynediad i wasanaethau cefnogi arbenigol ac ymyrraeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tra bo cynnydd wedi'i wneud yn ystod oes y CSCA presennol, mae llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau cymorth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr Wrecsam. Mae recriwtio staff mewn rhai meysydd arbenigol (e.e. Seicoleg Addysg, Therapi Iaith a Lleferydd) yn her o hyd, nid yn unig i feysydd gwasanaeth ALl ond hefyd asiantaethau iechyd. Gall hyn weithiau arwain at oedi annerbyniol mewn cael cymorth arbenigol ar gyfer dysgwyr, neu at fethu â chael y gwasanaeth yn eu dewis iaith o gwbl.

Rydym yn cydnabod bod cyfraniad sylweddol wedi cael ei wneud gan athrawon a chymorthyddion addysgu yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Drwy gael mynediad i hyfforddiant arbenigol mewn perthynas â'r prif strategaethau ymyrryd, mae capasiti ychwanegol yn ein hysgolion i gefnogi ystod o anawsterau sy'n cael eu profi gan ddysgwyr. Mae ein hysgolion yn cydweithio'n llwyddiannus i geisio datrysiadau'n weithredol.

Gall y Gwasanaeth Allgymorth Iaith ddarparu therapi drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod y Cydlynydd yn siaradwr rhugl. Rydym hefyd yn gweithio â therapyddion dwyieithog ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. O ran cefnogaeth gan y Gwasanaeth Cymorth Llythrennedd, mynychodd un o'r cydlynwyr y Cynllun Sabothol yr Iaith Gymraeg ychydig flynyddoedd yn ôl a nhw yn awr yw'r unigolyn arweiniol ar ddarparu cymorth i'r clwstwr cyfrwng Cymraeg. Er nad ydynt yn rhugl, mae eu Cymraeg o safon eithaf da sy'n golygu eu bod y gallu siarad â disgyblion yn Gymraeg ac maent wedi gallu addasu nifer o adnoddau er mwyn sicrhau y gellir darparu'r ymyraethau drwy gyfrwng y Gymraeg fel sy'n ofynnol.

Mae canran y disgyblion gydag ADY yn ein hysgolion dros y 5 mlynedd diwethaf wedi bod fel a ganlyn.

### Canran y Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (CYBLD) Cynradd (Meithrin – Blwyddyn 6) - Cyfrwng Cymraeg

| Categori ADY | 2017 Canran % | 2018 Canran % | 2019 Canran % | 2020 Canran % | 2021 Canran % |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu gan yr ysgol | 9.9 | 10.1 | 10.3 | 8.4 | 5.9 |
| Gweithredu gan yr ysgol a mwy | 3.7 | 5.0 | 5.4 | 4.7 | 4.3 |
| Datganiad | 0.2 | 0.2 | 0.4 | 0.4 | 0.5 |
| Cyfanswm | 13.9 | 15.4 | 16.0 | 13.4 | 10.8 |

### Canran y Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (CYBLD) Cynradd (Meithrin – Blwyddyn 6) - Cyfrwng Saeseneg

| Categori ADY | 2017 Canran % | 2018 Canran % | 2019 Canran % | 2020 Canran % | 2021 Canran % |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu gan yr ysgol | 11.1 | 10.7 | 9.9 | 8.0 | 7.1 |
| Gweithredu gan yr ysgol a mwy | 6.1 | 5.9 | 5.9 | 5.4 | 5.1 |
| Datganiad | 1.2 | 1.7 | 2.0 | 2.6 | 2.5 |
| Cyfanswm | 18.4 | 18.3 | 17.9 | 16.0 | 14.7 |

### Canran y Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (CYBLD) Uwchradd (Blwyddyn 7-11) - Cyfrwng Cymraeg

| Categori ADY | 2017 Canran % | 2018 Canran % | 2019 Canran % | 2020 Canran % | 2021 Canran % |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu gan yr ysgol | 16.5 | 15.7 | 8.5 | 10.0 | 9.4 |
| Gweithredu gan yr ysgol a mwy | 2.3 | 1.7 | 2.9 | 2.7 | 2.9 |
| Datganiad | 1.6 | 1.5 | 0.6 | 0.4 | 0.4 |
| Cyfanswm | 20.5 | 19.0 | 12.0 | 13.1 | 12.7 |

### Canran y Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (CYBLD) Uwchradd (Blwyddyn 7-11) - Cyfrwng Saesneg

| Categori ADY | 2017 Canran % | 2018 Canran % | 2019 Canran % | 2020 Canran % | 2021 Canran % |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredu gan yr ysgol | 10.7 | 11.3 | 12.2 | 10.4 | 7.7 |
| Gweithredu gan yr ysgol a mwy | 6.6 | 6.0 | 6.6 | 7.1 | 4.7 |
| Datganiad | 2.4 | 2.2 | 2.2 | 2.4 | 2.9 |
| Cyfanswm | 19.7 | 19.5 | 21.0 | 19.8 | 15.2 |

Mae’n rhaid ystyried hyn yn sgil maint y garfan ar gyfer Cymraeg o gymharu â Saesneg.

Mae hyn yn dangos oherwydd bod maint y garfan Gymraeg yn eithaf bach mae’r canrannau’n codi a gostwng ac er bod rhywfaint o gydraddoldeb rhwng canran y dysgwyr sy’n derbyn Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy sy’n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mae canran y disgyblion â datganiad mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyson yn is.

Rhagwelir mwy o newidiadau wrth i'r Ddeddf newydd gael ei gweithredu a bydd angen adolygu hyn yn rheolaidd ar gyfer pob carfan ac ar lefel genedlaethol. Er enghraifft, mae data diweddaraf CYBLD a gyhoeddwyd yn nodi gostyngiad cenedlaethol o 20% mewn disgyblion sydd wedi'u nodi fel rhai ag ADY. Mae Arweinwyr Gweithredu Cenedlaethol sy'n gweithio o fewn LlC yn arwain y gwaith o archwilio hyn ymhellach ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Ar hyn o bryd mae un ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen ac un ddarpariaeth CA2 ag adnoddau yn Ysgol Bodhyfryd yng nghanol y dref sydd â lle i 8 ac 11 disgybl yn y drefn honno. Mae yna hefyd ddarpariaeth gydag adnoddau yn Ysgol Morgan Llwyd sydd â lle i 16 o ddysgwyr.

Tra bo nifer y dysgwyr sydd wedi cael eu lleoli'n swyddogol yn yr ALl o fewn y Ddarpariaeth Adnoddau yn ystod Morgan Llwyd wedi aros yn gymharol debyg dros y 3 blynedd, mae'r niferoedd o fewn darpariaethau yn Ysgol Bodhyfryd wedi bod yn isel, ac wedi gostwng.

| Blwyddyn Academaidd | Cyfnod Sylfaen | Cyfnod Allweddol 2 |
|---|---|---|
| 2018 - 2019 | 5 | 6 |
| 2019 - 2020 | 2 | 4 |
| 2020 - 2021 | 3 | 3 |
| 2021 - 2022 | 2 | 2 |

Oherwydd y niferoedd isel, nid yw'n briodol darparu dadansoddiad pellach mewn dogfen a gyhoeddir fel hyn o ran anghenion penodol gan y gallai hyn arwain at allu adnabod yr unigolion.

Er bod rhai ceisiadau gan deuluoedd yn Wrecsam ar gyfer Darpariaeth Arbennig Cyfrwng Cymraeg, mae'n aneglur os yw hyn yn ddewis, neu oherwydd nad oes darpariaeth yn Wrecsam.

Yn ystod yr Hydref 2022, byddwn yn sefydlu gweithgor o gynrychiolwyr o'n hysgolion cyfrwng Cymraeg i adolygu'r ddarpariaeth gyfredol a chytuno ar, a chynllunio ffordd ymlaen.

Er bod Wrecsam yn ALl cymharol fach yn ddaearyddol, mae tystiolaeth anecdotaidd o ysgolion cynradd bod rhieni'n gyndyn o fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael yn y ddarpariaeth ag adnoddau am nad ydynt yn dymuno i'w plant deithio ar draws y dref. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod disgyblion ag ADY yn gadael addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd bod eu rhieni'n credu bod dysgu ail iaith yn her ychwanegol ac nad yw eu plentyn yn gallu ymdopi.

Nid yw adnoddau cyfrwng Cymraeg addas i gefnogi amrywiaeth o anghenion bob amser ar gael yn rhwydd ym mhob dosbarth a gall hyn hefyd fod yn rhwystr.

### Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?

Byddwn yn cynnal dadansoddiad ystadegol o fewn 12 mis cyntaf y CSCA a defnyddio'r wybodaeth / data i adolygu'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Bodhyfryd ac Ysgol Morgan Llwyd. Byddwn yn ystyried datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd a fydd yn cynnig cefnogaeth yn Gymraeg ar gyfer disgyblion gydag anghenion ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol, ADHD, ASD a chyfathrebu. Bydd datblygiad proffesiynol a hyfforddiant unigryw o ansawdd uchel ar gael i gefnogi'r gweithlu sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth.

Byddwn yn cynnal yr is-grŵp gan ganolbwyntio ar y deilliant hwn a sefydlwyd yn ystod hanner tymor yr haf 2021 i barhau i lywio'r ffrwd waith hon, monitor cynnydd ac adrodd yn ôl i'r fforwm. Bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a fydd yn eistedd o dan y cynllun strategol hwn, ac yn cynnwys terfynau amser a thargedau blynyddol penodol, a bydd yn cael ei fonitro gan y Fforwm a Llywodraeth Cymru.

Yn yr adran addysg ac o fewn y Cyngor ehangach, byddwn yn gweithio gyda'n hasiantaethau partner ac yn cydweithio gydag ALl eraill i recriwtio siaradwyr Cymraeg i rolau allweddol lle bo'n bosib. Byddwn yn archwilio trefniadau gweithio lle bo'n bosib er mwyn ymestyn ein cynnig presennol o gefnogaeth. Gyda'n hawdurdodau cyfagos, byddwn yn mapio arbenigedd ein tîm canolog i'n caniatáu i gael trosolwg o'r gefnogaeth ar gael cyn i'r angen godi, yn hytrach nag ymateb i'r galw unwaith y caiff ei nodi, a all arwain at oedi annerbyniol. Fel rhan o'n hygyrch hyrwyddo ehangach (gweler Deilliant 7) byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion, darparwyr Addysg Bellach a phrifysgolion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau priodol i sicrhau gweithlu cynaliadwy.

Byddwn yn ceisio ymgysylltu a chydweithredu'n rhagweithiol gyda'r Arweinydd Gweithredu ADY Cenedlaethol newydd (Cymraeg) cyn gynted ag y byddant wedi'u penodi gan LlC a sicrhau ein bod yn cymryd camau i ddatblygu darpariaeth yn unol â'r arferion gorau cenedlaethol.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i barhau i adolygu darpariaeth ADY ar draws yr holl leoliadau yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn ymgymryd ag archwiliad o AAA neu ADY dysgwyr cyfrwng Cymraeg ddwywaith y flwyddyn i weld beth yw lefel yr angen am ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ac yn cymryd y camau priodol mewn ymateb i ganlyniad yr archwiliad hwnnw.

Byddwn yn parhau i ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd, ac annog ein staff canolog i gael mynediad i hyfforddiant a chefnogaeth, i ddysgu Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn eu gwaith. Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu'r ddarpariaeth yn unol â'r anghenion sy'n dod i'r amlwg yn ystod pum mlynedd cyntaf y CSCA.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'n hysgolion cyfrwng Cymraeg, ALl cyfagos a GwE i sicrhau datblygiad proffesiynol pob aelod o staff i gefnogi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n hysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn ar arbennig gydag asiantaethau allanol, yn cynnwys cydweithiwr ym maes iechyd, i sicrhau y caiff rhieni dawelwch meddwl ac y gallant fod yn hyderus na fydd dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn anfanteisio unrhyw blentyn ag ADY, ac y byddant yn cael yr un gefnogaeth a'r un mynediad at wasanaethau arbenigol ag unrhyw blentyn arall.

Byddwn yn adolygu ein hyfforddiant arbenigol sydd wedi cael ei gyrchu gan siaradwyr Cymraeg yn ein hysgolion, ac yn dadansoddi 'r bylchau yn ein darpariaeth gyfunol i nodi ein rhaglenni hyfforddiant yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu'r adnoddau iaith Gymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn sicrhau y gallwn gydweithio'n genedlaethol fel y gall ein hysgolion a'n dysgwyr gael mynediad at yr hyn sydd ei angen arnynt.

Mewn perthynas â'r rownd nesaf o gyfalaf GC byddwn yn cyflwyno cais perthnasol i gynhwysiant ac ehangu ADY.

## Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

Byddwn yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i gydymffurfio â'r Deddf ADY i ddarparu system ddwyieithog o ddarpariaeth ADY a byddwn yn ceisio sicrhau darpariaeth ADY ddigonol ar gyfer dysgwyr sydd eisiau'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ochr yn ochr â gweithlu o faint a gallu digonol yn ystod oes y CSCA.

Erbyn diwedd y cynllun byddwn wedi:

- Cynyddu ein capasiti i gefnogi disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy fod â mwy o staff canolog sy'n siarad Cymraeg yn ein timau, yn ogystal ag o fewn ein sefydliadau partner;
- Parhau i sicrhau bod darpariaeth ADY yn y sector cyfrwng Cymraeg yn cyd-fynd â'r angen sy'n dod i'r amlwg, yn cynnwys darpariaeth arbenigol;
- Llunio trosolwg strategol o sgiliau penodol a pherthnasol ein gweithlu yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg;

O fewn 10 mlynedd bydd Awdurdod Lleol Wrecsam yn sefydlu cysylltiadau agosach gyda myfyrwyr y Chweched Dosbarth yn Ysgol Morgan Llwyd i gefnogi gweithlu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dyfodol ar gyfer gwasanaethau ADY cyfrwng Cymraeg, gan gynnig cymhelliant ar gyfer recriwtio ar ôl cymhwyso. Bydd hyn yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd a chyfleoedd mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ei gynnig i'r holl ddisgyblion.

Bydd gwasanaethau gan gynnwys SALT, Cymorth Llythrennedd Seicolegwyr Addysg, Cymorth Ymddygiad, Lles ac Iechyd, ASD, Cwnsela a Therapi Chwarae yn elwa o staff sy'n siarad Cymraeg a fydd yn eu tro yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gyfathrebu yn Gymraeg o fewn eu cymuned ac fel rhan o'u pecyn addysg. Bydd Awdurdod Lleol Wrecsam hefyd yn sicrhau mapio effeithiol o blant ADY o 0-25 oed trwy sicrhau partneriaethau gweithio agosach gydag arbenigwyr iechyd, dechrau'n deg, blynyddoedd cynnar i sicrhau rhaglen o ddarpariaeth gydlynol.

## Deilliant 7: Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu Cymraeg fel pwnc a hefyd addysgu pwnc arall drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni arni rŵan?

Thema gyffredin y CSCA hwn yw her barhaus recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg i rolau allweddol yn Wrecsam. Mae hwn yn fater y mae'r Cyngor yn ymwybodol ohono ac yn rhywbeth y bydd yn mynd ati'n weithredol i roi sylw iddo yn ystod blynyddoedd cynharaf y CSCA hwn mewn cydweithrediad â'n partneriaid. Rydym yn cydnabod nad yw Wrecsam ar hyn o bryd yn cael ei weld fel rhywle y mae siaradwyr Cymraeg yn dymuno byw a gweithio ynddo ac rydym yn anelu at newid hyn. Rydym hefyd yn cydnabod bod cyfran arwyddocaol o'n gweithlu o siaradwyr Cymraeg at y dyfodol ar hyn o bryd yn ddisgyblion yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg. Felly bydd sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau uchel erbyn yr adeg pan maen nhw'n gadael yr ysgol, yn cael cyfleoedd i barhau i siarad Cymraeg y tu allan i amgylchedd yr ysgol, a sicrhau eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i geisio swyddi'n lleol ar ôl iddynt orffen eu haddysg llawn amser yn flaenoriaeth i ni.

O'n chwe ysgol/ffederasiwn cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam, mae 2 ar hyn o bryd wrthi'n recriwtio pennaeth parhaol. Mae ein hysgol cyfrwng Cymraeg newydd, sydd i agor ym mis Medi 2022, hefyd wrthi'n recriwtio pennaeth. Ers 2017 rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cynyddu nifer yr ymgeiswyr o'n hysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi ennill NPQH. Mae GwE yn cefnogi Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i adnabod a chefnogi athrawon yn rhagweithiol ar bob cam o'u gyrfa i ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth drwy eu cynnig datblygu proffesiynol. Tra bo hyn wedi cryfhau ac ehangu nifer yr ymgeiswyr gyda'r cymwysterau addas ar gyfer rolau arweinyddiaeth, ac yn dal i wneud hynny, ni fydd hyn ynddo'i hun yn darparu digon o gapasiti ar gyfer y twf yr ydym yn cynllunio ar ei gyfer yn ein darpariaeth iaith Gymraeg, felly mae angen gwneud mwy. Rydym yn amcangyfrif y byddwn agen 8.5 o staff addysgu ychwanegol ar gyfer pob ysgol gynradd 210 yr ydym yn ei hagor.

Yn y sector uwchradd, mae recriwtio i rai meysydd pwnc yn anodd. Mae Ysgol Morgan Llwyd wedi cryfhau ei chysylltiadau â CABAN sydd wedi eu cefnogi nhw â hyn i raddau. Mae'r defnydd o E-ysgol hefyd wedi caniatáu i'r ysgol gynnig amrywiaeth eang o bynciau mewn meysydd lle mae prinder drwy gydweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ALl.

Gwelwyd cynnydd graddol yn nifer yr athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n manteisio ar y Cynllun Cymraeg Sabothol, rhywbeth sydd nid yn unig yn cryfhau'r iaith ac ethos Gymraeg a diwylliant Cymru yn yr ysgolion hyn ond hefyd yn rhoi opsiynau i'r Cyngor o ran adolygu dosbarthiad ysgolion. Ar ôl gostyngiad yn y niferoedd oherwydd y pandemig, mae 6 o athrawon o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn Wrecsam wedi manteisio ar y cynllun yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Mae cyfanswm o 24 o athrawon a 5 Cymhorthydd Addysgu wedi mynychu Cyrsiau Cymraeg Sabothol rhwng 2018 a 2022. Mae angen gwneud mwy o safbwynt darparu cyfleoedd parhaus i athrawon sy'n dychwelyd o'r cynlluniau sabothol i barhau i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Yn ystod pob sesiwn hyfforddiant gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg mae gwybodaeth mewn perthynas â Chyrsiau Sabothol Cymraeg yn cael ei rhannu gyda chyfranogwyr. Mae pob aelod o staff o ysgolion Wrecsam sy'n rhan o'r Cwrs Sabothol yn cael eu cefnogi gan y Tîm wrth iddynt gynllunio i ddychwelyd i'r ysgol. Mae'r gefnogaeth yn parhau pan mae staff yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd cyfnod Sabothol.

Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn darparu rhaglen gydlynol o gyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a staff cefnogi mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae anghenion hyfforddi staff yn cael eu rhannu gyda'r Tîm yn ystod cyfarfodydd gyda Phenaethiaid er mwyn sicrhau bod darpariaeth yr hyfforddiant yn effeithiol ac yn bodloni anghenion staff.

Er enghraifft, yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22 darparwyd yr hyfforddiant canlynol. Mae'r tabl isod hefyd yn nodi nifer y rhai sydd wedi mynychu pob cwrs:

| Sesiwn Hyfforddi | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|
| Cwrs Blwyddyn 3 a 4 (1 sesiwn bob tymor) | 58 |
| Cwrs Blwyddyn 5 a 6 (1 sesiwn bob tymor) | 67 |
| Darllen yn CA2 | 79 |
| Cynllunio ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen | 78 |
| Helpwr Heddiw CA2 | 163 |
| Helpwr Heddiw yn y Cyfnod Sylfaen | 166 |
| Cynorthwywyr Addysgu | 25 |
| Arweinwyr Pwnc Cymraeg | 48 |
| Arweinwyr Cymraeg Campus | 41 |
| Arweinwyr Clwstwr | 7 |
| Cyfanswm | 732 |

## Lle rydym yn anelu at fod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut ydym ni'n bwriadu cyrraedd yno?

Mae sicrhau digon o ddewis o staff blynyddoedd cynnar yn hanfodol i ehangu darpariaeth yn y maes hwn. Byddwn yn hyrwyddo'r canlynol:

### Cyrsiau Ysgol Cam Wrth Gam

Y Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam yw'r unig ddarparwr hyfforddiant cenedlaethol sy'n darparu cyrsiau Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun y gweithio'n agos ag ysgolion uwchradd i ddarparu rhaglenni hyfforddiant sy'n diwallu anghenion ysgolion a chymunedau yn y modd mwyaf effeithiol. Cynigir amrywiaeth o gyrsiau i ddisgyblion ysgolion uwchradd ledled Cymru fel rhan o gwricwlwm yr ysgol.

Darperir gwasanaeth hyblyg o safon uchel gan diwtoriaid, aseswyr a dilyswyr sydd â'r profiad a'r cymwysterau priodol. Cynigir amrywiaeth o gyrsiau, wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion unigol ysgolion a dysgwyr.

Bydd ein Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn darparu canllawiau ac yn cynnig cefnogaeth i sicrhau bod ysgolion yn adlewyrchu sgiliau Cymraeg staff yr ysgol yn gywir wrth gwblhau cyfrifiad y gweithlu. Pan fydd data CBGY ar gael byddant yn cynnal dadansoddiad ohono i dargedu eu cefnogaeth mewn ymateb iddo.

Bydd Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn parhau i ddarparu ystod eang o raglenni hyfforddiant ar gyfer athrawon a staff cefnogi yn y cyfnod cynradd yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg, wedi'i wahaniaethau'n briodol ar gyfer ei lefel gallu cyfredol. Mae hyn yn allweddol i'n dull o weithio er mwyn sicrhau bod gweithlu sy'n gymwys yn ddigonol o ran iaith a chodi safonau cyflawniad disgyblion yn Gymraeg.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg Sabothol gan sicrhau y caiff ei ddefnyddio'n strategol i ddiwallu anghenion ysgolion, yn enwedig y rhai hynny lle bydd newidiadau i faint o Gymraeg a addysgir yn effeithio ar yr angen o ran sgiliau staff. Bydd ein Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn darparu cefnogaeth ddilynol i sicrhau bod y sgiliau a enillwyd yn cael eu defnyddio mewn amgylchedd ystafell ddosbarth.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol (GwE) ac awdurdodau cyfagos eraill i gynyddu cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff, i ddarparu manyleb newydd ar gyfer Cymraeg CA4, ac mae rhwydweithiau lleol eisoes yn cynnal cyfarfodydd proffesiynol i rannu gwybodaeth ac arferion da.

Byddwn yn sicrhau bod ysgolion yn targedu datblygiad sgiliau eu staff – yn staff addysgu a chymorth fel ei gilydd - o fewn cynlluniau datblygu ysgolion yng nghyd-destun gwella safonau. Bydd canlyniadau'r gweithlu'n cael eu rhannu gydag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE, a fydd yn eu helpu nhw i fonitro a chefnogi gweithrediad priodol y cynlluniau datblygu ysgolion.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio data'r gweithlu i ddatblygu a darparu rhaglenni dysgu priodol sy'n adlewyrchu anghenion ein gweithlu lleol. Byddwn yn gwneud mwy o waith i hyrwyddo'r amrywiaeth llawn o gyrsiau Cymraeg sydd ar gael yn lleol, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Byddwn yn fwy rhagweithiol o ran annog mwy o staff i fanteisio ar y cyrsiau hyn i wella eu sgiliau Cymraeg a'u symud ar hyd y continwwm iaith.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ein llywodraethwyr ysgolion o'r angen am sgiliau dwyieithog wrth recriwtio staff a bod monitro gwelliant yn sgiliau eu staff yn hanfodol. Drwy gyfarfodydd Cymdeithas Llywodraethwyr Wrecsam byddwn yn rhoi diweddariadau rheolaidd i lywodraethwyr ar ein cynnydd yn erbyn targedau ein CSCA a'r cyfraniad y gallant ei wneud at ein gwaith.

Byddwn yn datblygu ymgyrch i hyrwyddo manteision byw a gweithio yn Wrecsam a'r cyffiniau i'r rhai hynny sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n awyddus i ddysgu.

Mewn partneriaeth â'n hysgolion cyfrwng Cymraeg, cydweithwyr GwE ac ALl cyfagos, byddwn yn blaenoriaethu'r angen i recriwtio staff i gefnogi Deilliant 6 er mwyn diwallu gofynion Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg.

Byddwn yn gweithio gyda Gyrfa Cymru, Ysgol Morgan Llwyd a Choleg Cambria i godi ymwybyddiaeth o'r angen am weithwyr sy'n siarad Cymraeg mewn meysydd allweddol ac i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa. Byddwn yn parhau i gydweithio â Mudiad Meithrin i gefnogi cyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio yn y sector nas cynhelir.

Byddwn y datblygu perthnasoedd gwaith gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Ysgolion  er mwyn recriwtio'n llwyddiannus i swyddi penaethiaid yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo manteision astudio parhaus yng Nghymru a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i ymgymryd â dadansoddiad rheolaidd o'r holl ffynonellau data i ddeall tueddiadau yn y galw am athrawon cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn golygu rhagweld cyfraddau pontio blynyddol y dysgwyr o addysg gynradd i uwchradd ac ystyried tueddiadau o ran nifer yr athrawon sy'n symud i rolau arweiniol, symud ysgolion neu adael / ymddeol o'r proffesiwn.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad data o sgiliau Cymraeg y gweithlu byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i eistedd o dan y cynllun strategol hwn er mwyn gosod targedau i gynyddu cyfran y gweithlu gyda sgiliau iaith ar lefel sylfaenol, ac ar lefel ganolradd neu uwch ac adrodd ar y rhain fel rhan o fonitro blynyddol y CSCA.

## Lle rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

Bydd Wrecsam yn cael ei weld fel lle dymunol i siaradwyr Cymraeg fyw a gweithio ac i fod yn rhan o gymuned Gymreig ffyniannus a bywiog. Gall y rhai hynny sy'n dymuno dysgu'r iaith, naill ai am resymau personol neu broffesiynol, ddod o hyd i wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael yn ddidrafferth a manteisio arnynt mewn ffordd sy'n siwtio eu hanghenion.

Bydd ein pobl ifanc, sydd ar hyn o bryd yn ddisgyblion yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg eisiau parhau i fyw a gweithio yn Wrecsam a magu eu teuluoedd eu hunain yma. Yn ogystal, byddwn yn gallu denu i rolau allweddol ymgeiswyr o safon uchel sy'n siarad Cymraeg o bob rhan o Gymru.

## Geirfa

| Acronym | Disgrifiad |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysg Arbennig |
| AB | Addysg Bellach |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| ALNET | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 |
| BTEC | Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg |
| C neu M | C – Cofrestriad Unigol Cyfredol disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn un ysgol<br>M – disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dwy sefydliad yr un pryd |
| CA | Cyfnod Allweddol |
| CABAN | Partneriaeth rhwng ysgolion, Prifysgol Bangor, Consortiwm Rhanbarthol GwE, a sefydliad ymchwil CIEREI sy'n canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol parhaus drwy gydol gyrfa |
| CC | Cyfrwng Cymraeg |
| CPCP | Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth |
| CS | Cyfrwng Saesneg |
| CSCA | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| DA | Darpariaeth ag Adnoddau |
| FTE | Cyfwerth â Llawn Amser |
| GwE | Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| NDC | Nifer Derbyn Cyhoeddedig – y nifer mwyaf o ddisgyblion y bydd yr awdurdod derbyn yn gofrestru i bob grŵp blwyddyn |
| NAYG | Nifer ar y Gofrestr |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| UA | Uwch Atodol |
| YMLl | Ysgol Morgan Llwyd |